



**Cyngor Bwrdeistref Sirol
Rhondda Cynon Taf**

**Deddf Gamblo 2005
Datganiad o Egwyddorion
2025 - 2028**

Mewn grym o 31 Ionawr 2025

Atodiad (i)**Cynnwys**

Eitem	Tudalen
Rhagair	3
Rhan A - Gwybodaeth Gefndirol	
1. Yr Amcanion Trwyddedu	4
2. Datganiad o Egwyddorion	4
3. Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	5
4. Ymgynghoriad	7
5. Awdurdodau Cyfrifol	7
6. Partïon sydd â Diddordeb	8
7. Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu	9
8. Cyfnewid Gwybodaeth	10
9. Cydymffurfio a Gorfodi	10
10. Betwatch	12
11. Ffioedd	12
12. Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed	13
13. Proffilio Ardaloedd Lleol	13
14. Newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau lleol	14
15. Newidiadau sylweddol i'r fangre	15
Rhan B - Trwyddedau Mangreoedd	
16. Egwyddorion Cyffredinol	19
17. Canolfannau Peiriannau Hapchwarae i Oedolion	27
18. Canolfannau Adloniant i Deuluoedd (Trwyddedig)	28
19. Casinos	29
20. Mangreoedd Bingo	29
21. Mangreoedd Betio	29
22. Traciau	30
23. Ffeiriau sy'n Teithio	32
24. Datganiadau dros dro	32
25. Adolygiadau	33
Rhan C - Hawlenni/Hysbysiadau Dros Dro ac Achlysurol	
26. Hawlenni Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Canolfannau Adloniant i Deuluoedd Heb Drwydded	35
27. Hawlenni Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Mangre â Thrwydded (Alcohol)	36
28. Hawlenni Hapchwarae â Gwobrau	37
29. Hawlenni Hapchwarae ar gyfer Clybiau a Hawlenni Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Clybiau	38
30. Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro	38

Atodiad (i)

31. Hysbysiadau o Ddefnydd Achlysurol	39
32. Gemau Loteri Cymdeithasau Bach	39
33. Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer 2015	40
Atodiad A; Rhestr o'r Ymgynghoreion	43
Atodiad B; Tabl Dirprwyo	44
Atodiad C; Crynodeb o Ddarpariaethau Peiriannau	45
Manylion Cyswllt Defnyddiol	47

Rhagair

Caiff gamblo, ac eithrio'r Loteri Genedlaethol a Betio Gwasgaredig, ei reoleiddio gan y Comisiwn Gamblo. Mae dyletswyddau'r Comisiwn yn cynnwys trwyddedu cwmnïau gweithredu ac unigolion sy'n ymwneud â darparu cyfleusterau gamblo a betio.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (yr Awdurdod Trwyddedu) yn gyfrifol am ddarparu trwyddedau, hawlenni a hysbysiadau o ddefnydd dros dro (ymhlith pethau eraill) ar gyfer mathau penodol o fangreoedd.

Yn rhan o'r broses yma, mae gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu lunio a chyhoeddi 'Datganiad o Egwyddorion', sy'n nodi'r meini prawf sydd angen eu hystyried wrth gyflawni ei swyddogaethau o ran trwyddedu a gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau.

Bwriad y 'Datganiad o Egwyddorion' yw amlinellu'r cyd-destun sy'n ymwneud â'r modd y mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymdrin â materion gamblo yn ei ardal, a helpu ymgeiswyr, trigolion, busnesau, ymgynghorai statudol a'r Pwyllgor Trwyddedu i wneud penderfyniadau, a hynny yn seiliedig ar faterion lleol perthnasol.

Yn unol â hynny, mae'r ddogfen yn amlinellu 'Datganiad o Egwyddorion' y Cyngor o fewn cwrdd Deddf Gamblo 2005 (a'r Canllawiau Statudol atodol). Bydd hyn, yn ei dro, yn darparu fframwaith sy'n llywodraethu'r Awdurdod Trwyddedu wrth iddo ystyried ceisiadau.

Bydd y Cyngor yn ystyried amcanion trwyddedu'r Ddeddf Gamblo 2005 a Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu wrth benderfynu ar geisiadau. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio'r polisi yma, heb gynnal ymgynghoriad, yn ôl yr angen er mwyn sicrhau ei fod e'n adlewyrchu unrhyw ddeddfwriaeth genedlaethol neu ganllawiau statudol diwygiedig.

Cafodd y Datganiad o Egwyddorion yma ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar xxx, a bydd e'n dod i rym ar 31 Ionawr 2025, ac yn para am 3 blynedd, (oni bai ei fod e'n cael ei ddiwygio).

Atodiad (i)

RHAN A

1. Yr Amcanion Trwyddedu

1.1 Mae gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu gyflawni'r rhan fwyaf o'i swyddogaethau o dan Ddeddf Gamblo 2005, gyda'r nod o hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, sef:-

- Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
- Sicrhau bod gamblo yn digwydd mewn modd teg ac agored;
- Amddiffyn plant a phobl eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan weithgareddau gamblo.

2. Datganiad o Egwyddorion

2.1 Nod y Datganiad o Egwyddorion yma yw bodloni gofynion y Cyngor o dan Adran 349 y Ddeddf. Yn unol ag Adran 153, bydd y Cyngor, wrth gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Thrwyddedau Mangreoedd a Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro, yn anelu at ganiatáu i'r safle gael ei ddefnyddio at ddibenion gamblo, cyn belled â'i fod o'r farn fod hynny:

- Yn cydymffurfio ag unrhyw Godau Ymarfer perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi gan y Comisiwn Gamblo
- Yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gafodd eu cyhoeddi gan y Comisiwn Gamblo
- Yn cydymffurfio'n rhesymol â'r amcanion trwyddedu
- Yn cydymffurfio â'r Datganiad o Egwyddorion yma

2.2 Nodwch na fydd y datganiad polisi yma yn diystyru hawl unrhyw unigolyn i wneud cais, cyflwyno'i farn am gais neu wneud cais am adolygiad o drwydded. Caiff pob achos ei ystyried yn unigol ac yn unol â gofynion statudol Deddf Gamblo 2005.

Atodiad (i)

3. Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

- 3.1 Mae sir Rhondda Cynon Taf yn ymestyn ar draws ardal cymoedd De Cymru, o'r Bannau Brycheiniog yn y gogledd hyd at gyrion Caerdydd yn y de. Mae'n cynnwys cymysgedd o gymunedau trefol, lled-faestrefol a gwledig wedi'u lleoli ymhlith y mynyddoedd ac ar hyd tir amaethyddol isel.
- 3.2 Rhondda Cynon Taf yw'r Awdurdod Lleol mwyaf ond un yng Nghymru. Cafodd ei ffurfio yn 1996 o hen fwrdeistrefi Cwm Rhondda, Cwm Cynon ac ardal Taf-elái (yn rhannol). Mae'r Fwrdeistref Sirol yn ymestyn dros 424 cilomedr sgwâr, ac mae ganddi boblogaeth amcangyfrifedig o 241,873 (2020). Mae 75 o wardiau etholiadol yn yr ardal.
- 3.3 Mae trefi'r ardal yn cynnwys Pontypridd, Llantrisant, Aberdâr, Aberpennar, Tonypany a'r Porth. Serch hynny, mae yna hefyd nifer o ardaloedd masnachol llai ledled y fwrdeistref, sy'n gweddu'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.
- 3.4 Dydy'r ardal ddim ar yr arfordir. Mae hi wedi'i lleoli rhwng Bwrdeistrefi Sirol Powys, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Caerffili, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd.
- 3.5 Mae'r M4, yr A470 a'r A467 yn briffyrdd strategol sy'n cysylltu'r sir â rhanbarthau eraill. Mae amrywiaeth o wasanaethau bws a rheilffordd yn darparu cludiant cyhoeddus ledled y fwrdeistref sirol.
- 3.6 Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chyfrannu at y saith nod cysylltiedig:
 1. Cymru sy'n fwy llewyrchus
 2. Cymru gydnerth
 3. Cymru iachach
 4. Cymru sy'n fwy cyfartal
 5. Cymru o gymunedau cydlynus
 6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
 7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Atodiad (i)

3.7 Map o Ardal y Cyngor



Map ar gael yn Saesneg yn unig.

Atodiad (i)

4. Ymgynghoriad

4.1 Cafodd y Datganiad o Egwyddorion ei lunio yn dilyn ymgynghoriadau â'r canlynol:-

- Prif Swyddog yr Heddlu;
- Un neu ragor o bobl sydd, ym marn yr Awdurdod, yn cynrychioli diddordebau'r unigolion sy'n cynnal busnesau gamblo yn ardal yr Awdurdod;
- Un neu ragor o bobl sydd, ym marn yr Awdurdod, yn cynrychioli diddordebau'r unigolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y Cyngor wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan Ddeddf Gamblo 2005.

4.2 Mae rhestr (dydy hi ddim yn gynhwysfawr) o'r unigolion hynny a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad wedi'i darparu yn Atodiad A.

4.3 Roedd holiadur hefyd ar gael ar wefan ymgynghori'r Cyngor, a gafodd ei hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol.

4.4 Os oes gyda chi gwestiynau ynglŷn â'r datganiad polisi yma, cysylltwch â'r unigolyn canlynol:

Enw: Martyn Owen (Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol)

Cyfeiriad: Tŷ Elái, Trewiliam, Tonypany CF40 1NY

Ffôn: 01443 425001

E-bost: adran.trwyddedau@rctcbc.gov.uk

Datganiad

Wrth lunio'r ddogfen bolisi hon, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn datgan ei fod wedi rhoi sylw i amcanion trwyddedu Deddf Gamblo 2005, y Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo ac unrhyw ymatebion gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw ar y datganiad.

5. Awdurdodau Cyfrifol

5.1 Yn unol â'r rheoliadau, mae gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu nodi'r egwyddorion a gaiff eu rhoi ar waith wrth arfer ei bwerau o dan Adran 157(h) y ddeddf, sef penodi corff sy'n gymwys i roi cyngor i'r Awdurdod ynglŷn â diogelu plant rhag niwed, a gwneud cofnod ysgrifenedig o hynny. Dyma'r egwyddorion:

Atodiad (i)

- a) Yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal sy'n ymestyn ar draws pob rhan o ardal yr Awdurdod Trwyddedu;
 - b) Yr angen i'r corff fod yn atebol i unigolion sydd wedi'u hethol mewn modd democrataidd yn hytrach nag unrhyw grŵp sydd â buddiant breintiedig.
- 5.2 Yn unol â'r argymhelliad yng Nghaneliau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau lleol, mae'r Awdurdod yma yn penodi Bwrdd Diogelu Cwm Taf at y diben yma.
- 5.3 Mae manylion cyswllt yr holl Awdurdodau Cyfrifol sy'n dod o dan Ddeddf Gamblo 2005 ar gael ar gais gan y Garfan Drwyddedu neu drwy fynd ar wefan y Cyngor: www.rctcbc.gov.uk

6. Partïon sydd â Diddordeb

- 6.1 Mae modd i bartïon sydd â diddordeb gyflwyno achosion am geisiadau am drwyddedau neu wneud cais am adolygiad o drwydded sy'n bodoli eisoes. Caiff yr unigolion yma eu diffinio fel y ganlyn yn Neddf Gamblo 2005:

“For the purposes of this Part a person is an interested party in relation to an application for or in respect of a premises licence if, in the opinion of the Licensing Authority which issues the licence or to which the applications is made, the person

- a) *Lives sufficiently close to the premises to be likely to be affected by the authorised activities,*
- b) *Has business interests that might be affected by the authorised activities, or*
- c) *Represents persons who satisfy paragraph (a) or (b)”*

- 6.2 Mae'r rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu ddatgan yr egwyddorion a gaiff eu rhoi ar waith wrth weithredu ei bwerau o dan y Ddeddf er mwyn penderfynu a yw unigolyn yn barti sydd â diddordeb. Dyma'r egwyddorion:

- Caiff pob achos ei ystyried yn unigol. Fydd yr Awdurdod ddim yn rhoi rheol anhyblyg ar waith mewn perthynas â'i benderfyniadau. Os bydd amheuaeth, yna bydd y sawl sy'n gwneud yr achos yn cael ei ffafrio nes bod modd profi i'r gwrthwyneb.
- Mae modd i'r partïon sydd â diddordeb gynnwys cymdeithasau masnach a chymdeithasau trigolion/tenantiaid, ar yr amod fod modd iddyn nhw ddangos eu bod nhw'n cynrychioli rhywun a fyddai'n cael ei ystyried yn barti sydd â diddordeb. Yn ogystal â hynny, mae modd i Gynghorwyr ac Aelodau Seneddol fod yn bartïon sydd â diddordeb hefyd, ar yr amod eu bod nhw'n

Atodiad (i)

gweithio ar ran eu wardiau eu hunain. Yn ogystal â hynny, mae modd i Gynghorwyr Etholedig gynrychioli partïon sydd â diddordeb, ar yr amod eu bod nhw ddim yn rhan o'r Is-bwyllgor Trwyddedu sy'n gwneud penderfyniad ar yr achos dan sylw.

- Serch hynny, ar wahân i'r rhain, bydd y Cyngor fel arfer yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig fod unigolyn/corff (e.e. eiriolwr/perthynas) yn 'cynrychioli' rhywun sydd naill ai'n byw'n ddigon agos at y fangre i gael ei effeithio gan y gweithgarwch trwyddedig a/neu sydd â diddordebau busnes a fydd, o bosibl, yn cael ei effeithio gan y gweithgarwch trwyddedig. Mae llythyr gan un o'r unigolion yma sy'n gofyn am gynrychiolaeth yn ddigonol.
- Wrth benderfynu p'un a yw rhywun yn byw'n ddigon agos at fangre penodol er mwyn cael ei effeithio gan y gweithgarwch trwyddedig, neu sydd â diddordebau busnes a fyddai'n cael eu heffeithio gan y diddordebau trwyddedig, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn dilyn Canllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Lleol. Mae hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer unrhyw fater sydd, ym marn yr Awdurdod, yn berthnasol ar gyfer y cais/ardal dan sylw.

7. Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu

7.1 O dan y ddeddf, mae gofyn i Awdurdodau Trwyddedu wneud y canlynol:

- Bod yn gyfrifol am drwyddedu mangreoedd lle caiff gweithgarwch gamblo ei gynnal, drwy gyhoeddi *Trwyddedau Mangreoedd*
- Cyhoeddi *Datganiadau Dros Dro*
- Rheoleiddio *Clybiau i Aelodau a Sefydliadau Lles i Lowyr* sy'n awyddus i gynnal gweithgarwch hapchwarae/gamblo penodol, drwy gyhoeddi Hawlenni Hapchwarae i Glybiau a/neu Hawlenni Peiriannau Hapchwarae i Glybiau
- Cyhoeddi hawlenni ar gyfer defnyddio rhai peiriannau hapchwarae (gwobrau llai) *mewn Canolfannau Adloniant Teulu heb drwydded*
- Derbyn hysbysiadau gan fangreoedd sydd â thrwydded alcohol (o dan Ddeddf Drwyddedu 2003) ar gyfer defnyddio dau o beiriannau hapchwarae neu lai
- Cyhoeddi *Hawlenni Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Mangreoedd Trwyddedig* ar gyfer safleoedd sydd â thrwydded i werthu/cyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, lle mae mwy na dau beiriant
- Cofrestru *gemau loteri cymdeithasau bach* o dan y trothwyon sydd wedi'u rhagnodi
- Cyhoeddi *Hawlenni Hapchwarae â Gwobrau*
- Derbyn a Chymeradwyo *Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro*
- Derbyn *Hysbysiadau o Ddefnydd Achlysurol*
- Darparu gwybodaeth i'r Comisiwn Gamblo mewn perthynas â thrwyddedau sydd wedi'u cyhoeddi (gweler yr adran uchod ar gyfnewid gwybodaeth)

Atodiad (i)

- Cadw cofrestrau o'r hawlenni a'r trwyddedau sydd wedi'u cyhoeddi o dan y swyddogaethau yma
- 7.2 Dylid nodi nad yw Awdurdodau Trwyddedu Lleol yn gyfrifol am hapchwarae o bell. Bydd y swyddogaeth yma'n cael ei rheoleiddio gan y Comisiwn Gamblo trwy drwyddedau gweithredu.
- 7.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod mai dim ond un ffordd o hyrwyddo'r gwaith o gyflawni'r tri amcan yw'r swyddogaeth drwyddedu, ac ni ddylid ei ystyried fel ffordd o ddatrys pob problem yn y gymuned. Bydd y Cyngor felly yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos, Heddlu De Cymru, y Bartneriaeth Cymunedau Diogel, Iechyd y Cyhoedd, busnesau lleol, pobl leol a'r rheiny sy'n ymwneud ag amddiffyn plant i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu sydd wedi'u hamlinellu. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod ei ddyletswydd o dan Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, mewn perthynas ag atal troseddau ac anhrefn.

8. Cyfnewid Gwybodaeth

- 8.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan adrannau 29, 30 a 350 o'r Ddeddf, mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth berthnasol â chyrrff rheoleiddio eraill, yn
- Sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn unol â pholisïau cyfredol Rhondda Cynon Taf;
 - Rhoi sylw i unrhyw Ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Lleol ar y mater yma, yn ogystal ag unrhyw reoliadau perthnasol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y pwerau a ddarparwyd yn Neddf Gamblo 2005.
- 8.2 Gall yr Awdurdod, o dro i dro, ymarfer ei bwerau o dan Adran 115 o'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn i gyfnewid data gyda'r Heddlu a phartneriaid eraill i gyflawni ei amcan statudol o leihau nifer y troseddau yn yr ardal.

Mae'r Awdurdod yn dymuno gwneud ei broses gwneud penderfyniadau mor dryloyw â phosibl, a bydd yr holl sylwadau sy'n dod i law yn cael eu rhannu gyda phawb sy'n ymwneud â'r cais.

9. Cydymffurfio a Gorfodi

- 9.1 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Trwyddedu gael eu rheoleiddio o dan Ddeddf Gamblo 2005 i nodi'r egwyddorion sydd i'w cymhwyso gan yr Awdurdod wrth arfer y swyddogaethau o dan Ran 15 o'r Ddeddf mewn perthynas ag arolygu

Atodiad (i)

mangre; a'r pwerau o dan adran 346 o'r Ddeddf i sefydlu achos troseddol mewn perthynas â'r tramgwyddau a bennir.

- 9.2 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu egwyddorion y Llywodraeth o ran arferion gorfodi da, yn unol â Chod y Rheoleiddiwr. Mae'r Polisi Gorfodi Corfforaethol ar gael ar wefan y Cyngor <http://www.rctcbc.gov.uk> ac mewn copi caled gan y Garfan Drwyddedu.
- 9.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cael ei arwain gan Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Lleol a bydd yn ymdrechu i fod yn:
- **Cymesur:** Dylai rheoleiddwyr beidio ag ymyrryd oni bai fo angen: dylai datrysiadau fod yn gymesur â'r risg arfaethedig, a dylai'r costau gael eu nodi a'u lleihau;
 - **Atebol:** Rhaid bod modd i reoleiddwyr gyfiawnhau penderfyniadau, a bod yn destun craffu cyhoeddus;
 - **Cyson:** Rhaid i reolau a safonau gydgyssylltu a chael eu gweithredu'n deg;
 - **Tryloyw:** Dylai rheoleiddwyr fod yn agored, a sicrhau bod y rheoliadau yn syml ac yn hawdd eu defnyddio; yn ogystal â
 - **Targedu:** Dylai'r rheoliadau ganolbwyntio ar y broblem, a lleihau sgîl-ffeithiau.
- 9.4 Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Lleol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio osgoi dyblygu gyda chyfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag y bo modd gwneud hynny.

Mae modd i swyddogion y Cyngor archwilio mangreoedd trwyddedig fel a ganlyn: -

- Yn rhan o'r broses ymgeisio i asesu'r risg y maen nhw'n yn ei beri;
 - Ymweliadau ar hap yn dilyn cwyn;
 - Monitro rheolaidd i sicrhau bod mangreoedd yn gweithredu yn unol â darpariaethau trwydded.
- 9.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi sefydlu rhaglen arolygu ar sail risg. Mae hyn yn darparu ar gyfer targedu mangreoedd sydd â phroblemau cytûn a rhai sy'n peri risg uwch, ond gydag archwiliadau llai rheolaidd o'r adeiladau risg-isel hynny sydd wedi'u rheoli a'u cynnal yn dda.
- 9.6 Mae modd ymgymryd â gweithgareddau Prawf Prynu i benderfynu ar gydymffurfiaid fel mesur canmoliaeth i'r rhaglen arolygu ar sail risg. Bydd gweithgarwch o'r fath yn cael ei wneud gan Swyddogion Safonau Masnach. Wrth ymgymryd â gweithgareddau prawf prynu, bydd yr Awdurdod Trwyddedu (ar ran y Garfan Safonau Masnach) yn ymgysylltu â'r Comisiwn Gamblo a'r Gweithredwr i benderfynu pa gynlluniau prynu eraill a allai fod eisoes ar waith, os o gwbl. Ni waeth beth fo'r gweithredwr yn ei wneud ar ei ystâd gyffredinol, efallai y caiff profion prynu eu hystyried yn gamau gweithredu priodol.

Atodiad (i)

- 9.7 Prif rôl gorfodi a chydymffurfiaeth yr Awdurdod Trwyddedu o ran Deddf Gamblo 2005 fydd sicrhau cydymffurfiaeth â'r trwyddedau mangre a chaniatadau eraill y mae'n eu hawdurdodi.
- 9.8 Y Comisiwn Gamblo fydd y corff gorfodi ar gyfer y trwyddedau Gweithredu a Phersonol. Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn delio â phryderon ynglŷn â gweithgynhyrchu, cyflenwi neu atgyweirio peiriannau hapchwarae, ond bydd y Comisiwn Gamblo yn cael ei hysbysu.
- 9.9 Bydd yr awdurdod lleol yn cynnal ymweliadau amlasiantaeth i adeiladau trwyddedig i sicrhau cydymffurfiaeth â'r amcanion trwyddedu.

10. Betwatch

- 10.1 Mae'r Cyngor yn annog ac yn cefnogi gweithredwyr lleol i greu rhwydwaith rhannu gwybodaeth, a'i gynnal er mwyn trafod materion sy'n ymwneud â betwyr sydd wedi'u nodi yn rhai sy'n peri problem. Bydd hyn hefyd yn gyfle i weithredwyr drafod materion gyda'r swyddogion trwyddedu.

11. Ffioedd

- 11.1 Mae ffioedd Trwydded Mangre wedi'u gosod o fewn y lefelau uchaf a ragnodwyd yn unol â Rheoliadau Ffioedd Gamblo (Trwydded Mangre) (Cymru a Lloegr) 2007, a byddan nhw'n cael eu cyfyngu i adennill costau llawn. Caiff y ffioedd ar gyfer hawlenni a gwasanaethau eraill eu gosod gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- 11.2 Bydd gwybodaeth ynglŷn â'r ffioedd i'w codi yn cael ei rhannu â'r cyhoedd ar wefan y Cyngor neu ar gael yn ysgrifenedig ar gais.
- 11.3 Os na chaiff y ffi flynyddol ar gyfer trwydded mangre neu hawlen ei thalu, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn dirymu'r drwydded/hawlen honno, oni bai ein bod ni o'r farn mai camgymeriad gweinyddol oedd hyn.
- 11.4 Os na fydd taliad ffi cais yn cael ei anrhydeddu gan fanc yr ymgeisydd, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried bod y cais wedi'i wneud yn gywir, a bydd unrhyw weithgarwch trwyddedadwy a gaiff ei gyflawni yn cael ei ystyried yn anghyfreithlon.
- 11.5 Bydd y Comisiwn Gamblo yn cael gwybod am yr holl ffioedd trwydded mangre a hawlenni safle blynyddol sydd ddim yn cael eu talu.

Atodiad (i)

12. Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed

- 12.1 Yn gyffredinol, mae ymwybyddiaeth gynyddol wedi bod o'r problemau yn y gymdeithas sy'n gysylltiedig â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Barn yr Awdurdod yw bod diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn gyfrifoldeb i bawb ac y dylai mangreoedd gamblo fod yn effro i hyn hefyd. Dylai fod gan weithredwyr fesurau Diogelu priodol ar waith a dylen nhw ofyn am gyngor priodol lle bo angen i sicrhau eu bod yn effro i faterion, arfer gorau a / neu flaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

13. Proffilio Ardaloedd Lleol

- 13.1 Mae'r Comisiwn Gamblo wedi cyflwyno darpariaethau yn ei god cyfrifoldeb cymdeithasol, sydd o fewn Amodau a Chodau Ymarfer y Drwydded (LCCP), sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gamblo asesu'r risgiau lleol i'r Amcanion Trwyddedu a gaiff eu creu wrth ddarparu cyfleusterau gamblo ym mhob un o'u mangreoedd, ac i roi polisiâu, gweithdrefnau a mesurau rheoli ar waith i liniaru'r risgiau. Bwriad y newid mewn polisi cenedlaethol yw darparu ffordd dryloyw, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o ystyried a gweithredu mesurau i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â gamblo.
- 13.2 Mae'r dull gweithredu yma sy'n seiliedig ar risg yn cynnig dealltwriaeth well o'r risgiau, ac yn galluogi sefydliadau i ymateb yn gymesur. Mae'r dull yma yn cynnwys edrych ar risgiau yn y dyfodol a meddwl am risgiau tebygol. Nid yw risg o reidrwydd yn gysylltiedig â rhywbeth penodol sydd wedi digwydd. Mae risg yn gysylltiedig â'r tebygolrwydd y bydd rhywbeth penodol yn digwydd ac effaith debygol y digwyddiad hwnnw. Yn yr achos yma, y risg dan sylw yw'r effaith ar yr amcanion trwyddedu.
- 13.3 Mae'n ofynnol i weithredwyr gamblo gynnal asesiad risg ar gyfer pob un o'u mangreoedd. Yn ogystal â hynny, rhaid i weithredwyr gynnal adolygiad o'r asesiadau hynny pan fo amgylchiadau'n newid. Mae'r sbardunau yma, ynghyd â barn y Cyngor ar yr hyn a fyddai'n ysgogi naill ai asesiad newydd neu adolygiad o'r asesiad cyfredol, wedi'u nodi yn y rhan yma o'r ddogfen.
- 13.4 Mae'r Cyngor o'r farn bod yr asesiadau risg lleol yma yn elfen allweddol o'r broses gyffredinol o asesu a rheoli risgiau lleol.
- 13.5 Mae modd i asesiadau risg gyfeirio at broffil ardal y Cyngor, a allai gael ei lunio mewn perthynas â phroblemau sy'n ymwneud â gamblo sydd wedi'u hadrodd mewn ardal. Ar adeg paratoi'r rhifyn yma o'r Datganiad Polisi Trwyddedu, chafodd ddim dystiolaeth ei chyflwyno i'r Awdurdod er mwyn ategu'r honiad fod unrhyw ardal wedi wynebu problemau yn sgil gweithgareddau gamblo, neu'n gwneud hynny ar hyn o bryd. Byddwn ni'n cadw llygad ar y sefyllfa ac, os bydd hi'n newid, caiff rhagor o waith ymchwil ei wneud i ddarganfod maint y problemau a pharatoi Proffil Ardal yn unol â hynny.
- 13.6 Bydd angen i ymgeiswyr a gweithredwyr ystyried ffactorau fel:

Atodiad (i)

- Y mathau o fangreoedd a'r ffordd maen nhw'n gweithio yn yr ardal leol
- Y math o bobl sy'n rhan o'r ardal leol, er enghraifft, a yw hi'n cynnwys trigolion, gweithwyr neu ymwelwyr yn bennaf?
- P'un a yw'n ardal deuluol, sy'n boblogaidd gyda phlant a phobl ifainc
- Cysylltiadau trafniadaeth a chyfleusterau parcio
- Cyfleusterau addysg
- Canolfannau cymuned
- Ysbytai, darparwyr gofal iechyd meddwl neu ofal o ran gamblo
- Llochesi, hosteli a gwasanaethau cymorth i bobl ddi-gartref neu'r rheiny sy'n cysgu ar y stryd
- Ethnigrwydd, oedran, a chymysgedd economaidd y gymuned leol
- Nifer sylweddol o blant ifainc
- Ardal lle mae lefelau uchel o drosedd/diweithdra
- Cyfleuster cymorth alcohol neu gyffuriau gerllaw
- Broceriaid gwystlo/busnesau benthyciadau diwrnod talu sydd yn y cyffiniau
- Mangreoedd gamblo eraill yn y cyffiniau
- Canolfannau cymuned
- Ysbytai, darparwyr gofal iechyd meddwl neu ofal o ran gamblo

Mae modd gweld data ardaloedd lleol o ran troseddau ar <https://www.south-wales.police.uk/cy-GB/>

Mae Prifysgol Bangor wedi cynnal map rhyngweithiol sy'n archwilio pa mor agored i niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yw pobl fesul ardal ledled Cymru. <https://www.bangor.ac.uk/psychology/research/gambling/gambling-andhealth-in-wales>

14. Newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau lleol

14.1 Mae'n ofynnol i weithredwyr adolygu eu hasesiad risg lleol os bydd newid sylweddol yn yr amgylchiadau lleol. Mae newidiadau i amgylchiadau lleol yn digwydd yn aml, a gallan nhw fod yn rhai dros dro neu'n rhai parhaol, yn dibynnu ar natur yr hyn sy'n newid, pa mor hir y bydd y newid hwnnw'n para a sut mae'n effeithio ar yr ardal leol. Serch hynny, fydd y gofyniad ar gyfer adolygu'r asesiad risg ddim ond yn berthnasol pan fydd y newid hwnnw'n arwyddocaol.

14.2 Mae'r rhestrau canlynol yn nodi rhai enghreifftiau o'r hyn mae'r Awdurdod Trwyddedu yn eu hystyried yn newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau lleol:

- Os bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi'r ardal leol ar restr o ardaloedd perygl cynyddol yn ei Ddatganiad o Egwyddorion Trwyddedu, neu'n ei thynnu hi oddi ar y rhestr yma
- Unrhyw ddatblygiad adeiladu sylweddol neu waith addasu adeiladau sy'n bodoli eisoes yn yr ardal leol a allai gynyddu neu leihau nifer yr ymwelwyr. Er

Atodiad (i)

enghraifft, lle caiff adeiladau eu hagor fel archfarchnad leol neu pan gaiff adeilad swyddfa newydd yn cael ei adeiladu gerllaw

- Os bydd unrhyw gwmni benthyciadau diwrnod talu neu froceriaid gwystlo yn agor yn yr ardal leol
- Os bydd newidiadau i ddarpariaeth, lleoliad a/neu amseroedd cludiant cyhoeddus yn yr ardal leol, megis safle bws a ddefnyddir gan blant i fynychu'r ysgol yn cael ei symud i leoliad sy'n agos at fangre gamblo
- Os bydd nifer y cyfleusterau addysgol yn yr ardal leol yn cynyddu. Gall hyn ddigwydd o ganlyniad i adeiladu ysgol/coleg newydd neu lle caiff newid sylweddol ei wneud i sefydliad sy'n bodoli eisoes
- Os caiff yr ardal leol ei dynodi'n safle trosedd gan yr heddlu a/neu'r Awdurdod Trwyddedu
- Os bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn nodi unrhyw grŵp sy'n agored i niwed, neu leoliadau sy'n gysylltiedig â'r grwpiau hynny sy'n cael eu hagor yn agos at fangre oedd gamblo (e.e. os caiff rhagor o hosteli i bobl ddigartref neu gyfleusterau gofal/cymorth o ran gamblo neu iechyd meddwl eu hagor yn yr ardal leol)
- Os caiff mangre newydd sy'n cynnwys gweithgarwch gamblo ei agor yn yr ardal leol.

14.3. Dydy'r rhestr uchod ddim yn rhestr gynhwysfawr o newidiadau sylweddol i amgylchiadau lleol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi gwybodaeth i weithredwyr gamblo pan fydd yn teimlo bod newid sylweddol wedi digwydd yn yr ardal leol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn nodi beth yw'r newid hwnnw ac efallai bydd yn darparu gwybodaeth am unrhyw bryderon penodol y dylai gweithredwyr eu hystyried. Fodd bynnag, rhaid i weithredwyr hefyd ystyried yr hyn sy'n digwydd yn eu hardaloedd lleol a'u cyfrifoldeb nhw yw nodi newidiadau sylweddol a allai olygu fod angen cynnal adolygiad o'u hasesiad risg a'i ddiwygio. Gall newidiadau sylweddol fod yn rhai dros dro, a dylai unrhyw newidiadau o'r fath gael eu hystyried, gan addasu'r asesiad risg lleol yn ôl yr angen.

15. Newidiadau sylweddol i'r fangre

15.1 O bryd i'w gilydd bydd gweithredwyr yn aildrefnu'r fangre, neu'n ei ailaddurno, mae hi'n annhebygol y bydd hyn yn galw am adolygiad o'r asesiad risg ar gyfer y fangre. Serch hynny, lle mae newid sylweddol ar y safle a allai effeithio ar liniaru risgiau lleol, yna mae'n rhaid i weithredwr adolygu ei asesiad risg a'i ddiweddarau yn ôl yr angen, gan ystyried y newid a sut y gallai hyn effeithio ar un neu ragor o'r amcanion trwyddedu.

15.2 Mae'r rhestr ganlynol yn nodi rhai enghreifftiau o'r hyn mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ei ystyried fel newidiadau sylweddol i'r fangre (efallai y bydd rhai ohonynt yn gofyn am amrywiad i'r drwydded mangre bresennol). Yn yr un modd

Atodiad (i)

â'r enghreifftiau o newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau lleol a nodir uchod, dydy'r rhestr ganlynol ddim yn rhestr gynhwysfawr o newidiadau sylweddol i'r fangre. Rhaid i weithredwyr ystyried a yw unrhyw newid y maen nhw'n bwriadu'i wneud i'w safle yn un a allai gael ei ystyried yn sylweddol.

- Unrhyw waith adeiladu neu adnewyddu lle mae cyfleusterau gamblo'n cael eu hadleoli yn y fangre
- Os caiff y drwydded mangre ei throsglwyddo i weithredwr newydd a fydd yn rhoi ei weithdrefnau a'i bolisïau ei hun ar waith yn y fangre, sy'n wahanol i rai'r trwyddedai blaenorol
- Unrhyw newid i bolisïau mewnol y gweithredwr sydd, o ganlyniad, yn galw am newid y mesurau rheoli presennol neu fesurau rheoli ychwanegol; a/neu os bydd angen ailhyfforddi staff ar y newidiadau polisi hynny
- Os caiff y fynedfa/mynedfeydd i'r fangre ei/eu newid, er enghraifft, caiff deunyddiau'r drws eu newid o fetel gyda gwydr i ddrws gwydr llawn, neu caiff drysau eu newid yn rhai mynedfa yn unig neu allanfa yn unig
- Os oes cyfleusterau gamblo newydd ar gael yn y fangre nad oeddent nhw'n cael eu darparu o'r blaen, er enghraifft, gemau betio wrth chwarae, gemau llaw ar gyfer cwsmeriaid, Peiriannau Betio Hunanwasanaeth, neu caiff categori gwahanol o beiriant hapchwarae ei ddarparu
- Os bydd gweithredwr y fangre yn gwneud cais am drwydded yn y fangre hwnnw er mwyn darparu gweithgaredd o dan drefn reoleiddio wahanol, er enghraifft, i ganiatáu gwerthu alcohol neu i ddarparu adloniant rhywiol yn y fangre.

15.3 Risgiau gweithredol gamblo

Wrth ystyried pwyntiau 13, 14 a 15 uchod mae'r gweithrediad gamblo yn ymwneud â sut y bydd y fangre yn cael ei redeg, neu sut y caiff ei redeg ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau'r gweithredwr sydd wedi'u rhoi ar waith i fodloni gofynion y busnes, y Ddeddf a/neu ddarpariaethau cod penodol yn y LCCP.

Dylai gweithredwyr gamblo nodi risgiau gweithredol yn yr ardal leol yn unol â'r amcanion trwyddedu ac yna ystyried a oes mesurau rheoli sy'n ychwanegol at y rhai sydd eisoes ar waith a fyddai'n lliniaru'r risg. Er enghraifft, os gwyddys bod defnydd o gyffuriau anghyfreithlon yn yr ardal leol, mae'n bosibl y bydd y gweithredwr gamblo yn ystyried defnyddio mesurau rheoli fel cloeon magnetig (maglocks) ar ddrysau'r toiledau neu newid dyluniad y toiledau i atal pobl rhag eu defnyddio i gymryd cyffuriau anghyfreithlon. Mae'n debygol y bydd nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r elfen yma o'r asesiad yn debyg iawn ar gyfer pob mangre gydag amrywiadau bach, gan ddibynnu ar unrhyw ffactorau penodol sy'n ymwneud â'r fangre neu'r ardal leol.

Bydd y mesurau rheoli y bydd gweithredwyr yn eu rhoi ar waith i liniaru unrhyw risg sy'n gysylltiedig â'r gweithrediad gamblo yn dibynnu ar y math o

Atodiad (i)

weithgareddau gamblo a ddarperir, sut mae'r cwmni'n gweithredu a maint y sefydliad.

Risgiau dyluniad y fangre

Mae dyluniad y fangre yn ffactor hynod bwysig wrth ystyried risgiau lleol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd Canolfan Hapchwarae i Oedolion sydd wedi'i lleoli mewn ardal sydd â nifer uchel o blant a phobl ifainc yn bresennol trwy gydol y dydd yn sylwi ar y ffaith bod plant lleol yn defnyddio'r drysau ar bob ochr y fangre fel llwybr byr i gael mynediad i'r stryd gyfagos. Mae'n bosibl mai'r mesur lliniaru priodol yn yr achos yma yw bod y gweithredwr gamblo yn cau un o'r drysau i atal plant rhag cael ei ddefnyddio fel llwybr byr.

Yn rhan o'r broses ddylunio, mae cynllun y fangre yn ystyriaeth fawr gan ei bod yn bosibl y gall dyluniad sydd wedi'i ddylunio'n wael greu risgiau sylweddol i un neu ragor o'r amcanion trwyddedu. Mae gweithredwyr gamblo yn brofiadol o ran dylunio mangreodded ac yn aml mae'r ystyriaethau hyn yn cael eu gwneud yn ystod y cam cynllunio. Cynghorir i weithredwyr gamblo sicrhau bod proses ar waith i gofnodi'r penderfyniadau allweddol yma'n gynnar yn y broses gynllunio ar gyfer dylunio mangre fel bod modd cynnwys hyn yn yr asesiad risg.

Risgiau o ran dyluniad mewnol

Bydd dyluniad a chynllun mewnol yn adlewyrchu gweithrediad y fangre a'r math o gyfleusterau gamblo y mae'n eu cynnig. Ar gyfer rhai safleoedd, bydd y dyluniad yn ddarostyngedig i rai cyfyngiadau oherwydd amodau gorfodol ar drwydded y safle gamblo, megis y pellter rhwng byrddau hapchwarae a chyfleusterau gamblo eraill mewn casinos, a chyfyngiadau ar leoliad peiriannau ATM.

Dylai gweithredwyr asesu'r risg a gyflwynir gan gynllun mewnol y fangre a lleoliad y cyfleusterau gamblo ynddyn nhw. Er enghraifft, os caiff peiriant hapchwarae ei osod o fewn llinell olwg uniongyrchol o gownter yr ariannwr, bydd modd i staff fonitro ymddygiad chwaraewyr ac ymyrryd os bydd pryder ynghylch arferion gwario'r cwsmer. Gall staff hefyd fonitro'r defnydd o'r peiriannau ac mae modd iddyn nhw herio unrhyw gwsmeriaid y credir eu bod nhw o dan 18 oed, neu sy'n difrodi'r peiriannau, neu i'w gweld yn ceisio gwyngalchu arian. Trwy asesiad syml o'r lleoliad gorau ar gyfer y peiriannau yma, gall gweithredwyr leihau'r risg i'r amcanion trwyddedu yn sylweddol.

Risgiau o ran dyluniad allanol

Bydd y tu allan i'r fangre yn hysbyseb fawr ar gyfer y gweithredwr gamblo. Serch hynny, dylid asesu'r dyluniad ar sail y risg cysylltiedig. Mae'n bosibl y bydd gweithredwyr yn nodi risg sy'n gysylltiedig â'r dyluniad ac yn cyflwyno mesurau rheoli yn seiliedig ar y risg ganfyddedig honno. Er enghraifft, os oes gan y fangre

Atodiad (i)

lawer o ffenestri gwydr mewn ardal sy'n dueddol o gael difrod troseddol, mae'n bosibl y bydd gweithredwyr yn ystyried bod y risg o ddifrod i'r gwydr gwydn safonol yn uchel ac yn cyflwyno mesur rheoli fel caeadau rholer a/neu gamerâu teledu cylch cyfyng y tu allan i'r fangre.

Mesurau Rheoli

Yn dibynnu ar natur y ffactorau risg, gallai'r mesurau rheoli sy'n cael eu nodi i liniaru'r risg ganfyddedig fod yn gyfuniad o systemau, dyluniad a mesurau corfforol. Gall mesurau rheoli sy'n ymwneud â systemau fod yn fesurau sydd wedi'u rhoi ar waith trwy bolisiau a gweithdrefnau. Gall y rhain fod yn systemau sy'n berthnasol i holl fangreodded neu systemau'r gweithredwr sydd wedi'u datblygu'n benodol er mwyn i fangreodded penodol ddelio â ffactor risg lleol. Gallai mesurau rheoli system gynnwys hyfforddiant staff, polisiau a gweithdrefnau diogelwch. Mae'n bosibl y byddan nhw hefyd ymwneud â chael gweithwyr diogelwch wrth fynedfeydd, gweithredu meini prawf aelodaeth a/neu roi cymorth i grwpiau lleol sy'n agored i niwed trwy ddulliau ariannol neu ddulliau eraill.

Mae mesurau rheoli dyluniad yn fesurau sy'n rhan o ddyluniad y fangre. Gall y rhain gynnwys lleoliad y cyfleusterau gamblo a dyluniad a lleoliad cownteri arianwyr yn y fangre, a dyluniad allanol y fangre. Er enghraifft, gallai mesur rheoli ar gyfer y tu mewn i'r fangre gynnwys symud cownter ariannwr o gefn y safle i flaen y siop wrth ymyl y brif fynedfa. Gall mesur rheoli dyluniad allanol olygu bod y dyluniad allanol wedi'i deilwra i fynd i'r afael â risgiau lleol, er enghraifft, arddangosfeydd ffenestri mwy agored i alluogi staff i weld allan o'r fangre neu ddyluniad i osgoi denu plant i'r fangre.

Gallai'r mesurau rheoli a nodwyd i liniaru risg ganfyddedig gynnwys cyfuniad o systemau, dyluniad a mesurau corfforol. Er enghraifft, er mwyn mynd i'r afael â'r ffactorau risg sy'n ymwneud â phlant yn cael mynediad i fangre gamblo cyfyngedig dros 18 oed, mae'n bosibl y bydd y gweithredwr yn nodi'r mesurau rheoli canlynol:

Systemau: Cerdyn PASS neu bolisiau gwirio oedran, cynllun her 21, hyfforddiant staff a staff wrth y drws.

Dyluniad: Dyluniad allanol na fydd yn denu plant i'r fangre, bydd cynllun y fynedfa yn galluogi staff a gweithwyr diogelwch i wyllo'r rhai sy'n dod i mewn i'r fangre a'u herio ar sail oedran.

Mesurau Corfforol: Cloeon drws magnetig a sganio cardiau adnabod.

Atodiad (i)

RHAN B

TRWYDDEDAU MANGREOEDD

16. Egwyddorion Cyffredinol

- 16.1 Bydd trwyddedau mangreoedd yn ddarostyngedig i'r gofynion sydd wedi'u nodi yn Neddf Gamblo 2005 a'r rheoliadau, yn ogystal â'r amodau gorfodol penodol a diofyn, a fydd yn cael eu manylu mewn rheoliadau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gall Awdurdodau Trwyddedu wahardd amodau diofyn a hefyd atodi eraill, lle credir ei bod yn briodol.

Mae Trwyddedau Mangreoedd yn awdurdodi darpariaeth cyfleusterau gamblo ar y canlynol:-

- Mangreoedd Casino;
- Mangreoedd Bingo ;
- Mangreoedd Betio (gan gynnwys traciau rasio sy'n cael eu defnyddio gan gyfryngwyr betio);
- Canolfannau Hapchwarae i Oedolion;
- Canolfannau Adloniant i Deuluoedd.

Ac eithrio yn achos Traciau (lle nad y deiliad o bosibl yw'r person sy'n cynnig gamblo), dim ond i'r rhai y rhoddir Trwydded Weithredu iddyn nhw gan y Comisiwn Gamblo y rhoddir Trwyddedau Mangreoedd.

(i) Penderfynu

- 16.2 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn effro i'r ffaith y dylai, wrth wneud penderfyniadau am drwyddedau mangreoedd, anelu at ganiatáu defnyddio mangreoedd ar gyfer gamblo cyn belled â'i fod o'r farn fod hynny'n:

- Cydymffurfio ag unrhyw Godau Ymarfer perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi gan y Comisiwn Gamblo;
- Cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gafodd eu cyhoeddi gan y Comisiwn Gamblo;
- Cydymffurfio'n rhesymol â'r amcanion trwyddedu;
- Cyd-fynd â datganiad polisi trwyddedu'r Awdurdod.

Gwerthfawrogir "nad yw gwrthwynebiadau moesol i gamblo yn rheswm dilys dros wrthod ceisiadau am drwyddedau mangreoedd" yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Lleol (ac eithrio mewn perthynas ag unrhyw 'ddatrysiad dim casino' - gweler yr adran ar Casinos isod - tudalen 14) a hefyd nad yw'r galw heb ei fodloni yn faen prawf ar gyfer Awdurdod Trwyddedu.

Atodiad (i)

16.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn nodi canllawiau'r Comisiwn Gamblo ynglŷn â sicrhau mai betio yw prif weithgaredd safle trwyddedig. Mae modd darparu peiriannau hapchwarae i'w defnyddio mewn mangre betio trwyddedig, dim ond ar adegau pan fo digon o gyfleusterau ar gyfer betio ar gael hefyd. Bydd angen i weithredwyr ddangos y bydd betio yn parhau i fod yn brif weithgaredd yn y fangre wrth geisio amrywio trwyddedau.

Wrth wneud y penderfyniad yma, bydd yr Awdurdod yn ystyried y chwe dangosydd betio sy'n profi mai betio yw'r prif weithgaredd gamblo, fel y ganlyn:

-

- Cynnig cynnyrch craidd sefydledig (gan gynnwys darlledu achlysuron byw ac amrywiaeth o ran betio);
- Darparu gwybodaeth am gynnyrch ac achlysuron;
- Hyrwyddo cyfleoedd a chynnyrch gamblo;
- Y defnydd gwirioneddol a gaiff ei wneud o gyfleusterau betio;
- Maint y fangre;
- Darparu cyfleusterau betio.

(ii) Diffiniad o "fangre"-

16.4 Mae'r Ddeddf yn diffinio mangre fel "unrhyw le". Felly mae Adran 152 yn atal mwy nag un drwydded mangre rhag cael ei rhoi ar waith mewn unrhyw le. Serch hynny, mae'n bosibl i un adeilad fod yn ddarostyngedig i fwy nag un drwydded mangre, ar yr amod eu bod ar gyfer gwahanol rannau o'r adeilad, a bod modd ystyried yn rhesymol bod gwahanol rannau o'r adeilad yn fangreoedd gwahanol.

Cafodd y dull gweithredu yma ei roi ar waith er mwyn caniatáu i fangreoedd mawr, aml-uned fel parc pleser, pier, trac neu ganolfan siopa i gael trwyddedau mangreoedd ar wahân, lle bo mesurau diogelu priodol yn eu lle. Serch hynny, dylai awdurdodau trwyddedu roi sylw arbennig i unrhyw broblemau ynghylch isadrannau mewn un adeilad neu blot, a dylen nhw sicrhau bod amodau gorfodol sy'n ymwneud â symud rhwng y naill fangre a'r llall yn cael eu harsylwi.

Mae'r Comisiwn Gamblo yn nodi yn ei Ganllawiau i Awdurdodau Trwyddedu: "Yn y rhan fwyaf o achosion, y disgwyl yw y bydd un adeilad/plot yn destun cais am drwydded, er enghraifft, 32 Stryd Fawr. Ond, nid yw hynny'n golygu na all 32 Stryd Fawr fod yn destun trwyddedau mangreoedd ar wahân ar gyfer yr is-lawr a'r llawr gwaelod, os ydynt wedi'u haddasu mewn modd derbynol. Bydd yr amgylchiadau'n profi a oes modd ystyried gwahanol rannau o'r adeilad fel mangre ar wahân ai peidio. Yn amlwg, bydd lleoliad y fangre yn ystyriaeth bwysig ac mae'n debygol y bydd addasrwydd yr adran yn fater i'w drafod rhwng y gweithredwr a'r swyddog trwyddedu. Serch hynny, nid yw'r Comisiwn yn ystyried bod modd galw rhannau o adeilad sy'n cael eu gwahanu'n artiffisial

Atodiad (i)

neu'n dros dro, er enghraifft trwy raffau neu raniadau symudol, yn adeiladau gwahanol."

16.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn talu sylw penodol i Ganllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Lleol sy'n datgan:

- Dylai Awdurdodau Trwyddedu gymryd gofal arbennig wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau lluosog ar gyfer adeilad, a'r rheiny sy'n ymwneud â rhan ar wahân o adeilad a gaiff ei defnyddio at ddibenion eraill (yn hytrach na gamblo). Yn benodol dylen nhw fod yn ymwybodol o'r canlynol:
- Mae'r trydydd amcan trwyddedu yn ceisio amddiffyn plant rhag cael eu niweidio gan weithgareddau gamblo. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu eu hatal rhag cymryd rhan mewn gamblo, a'u hatal rhag bod yn agos at weithgareddau gamblo. Felly, dylid ffurfweddu mangreoedd fel nad yw plant yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gamblo, yn cael mynediad damweiniol at gamblo neu'n gweld rhywun yn gamblo lle maen nhw wedi'u gwahardd rhag cymryd rhan.
- Dylai mynedfeydd ac allanfeydd ar gyfer rhannau o adeilad lle mae un neu ragor o drwyddedau mangreoedd fod ar wahân, a dylai bod modd eu hadnabod, fel bod mangreoedd gamblo yn cael eu cadw ar wahân a bod pobl ddim yn "crwydro" i mewn i fangre gamblo. Fel rheol, yn y cyddestun yma, dylai fod modd cael mynediad i'r fangre heb fynd trwy mangre arall sydd â thrwydded neu hawlen.
- Dylai cwsmeriaid allu cymryd rhan yn y gweithgaredd sydd wedi'i enwi ar drwydded y fangre.

Mae'r Canllawiau hefyd yn rhestru ffactorau y dylai'r awdurdod trwyddedu fod yn effro iddyn nhw. Mae modd i hyn gynnwys:

- A yw'r fangre wedi'i gofrestru ar wahân ar gyfer ardrethi busnes?
- A yw perchennog y fangre yn berchen ar y mangreoedd cyfagos, neu a ydyn nhw'n eiddo i rywun arall?
- A oes modd cael mynediad i bob un o'r mangreoedd o'r stryd neu lwybr cyhoeddus?
- A oes modd cael mynediad i'r fangre o unrhyw fangre gamblo arall?

Bydd yr Awdurdod yma'n yn ystyried y ffactorau hyn a ffactorau perthnasol eraill wrth wneud ei benderfyniad, yn dibynnu ar yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â'r achos.

Mae darpariaethau mynediad perthnasol y Comisiwn Gamblo ar gyfer pob math o safle wedi'u nodi isod:

Atodiad (i)

Casinos

- Rhaid i'r brif fynedfa i'r fangre fod ar stryd (fel y'i diffinnir yn 7.23 o'r Canllawiau)
- Ni ddylai unrhyw fynedfa i gasino fod o fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifainc
- Ni ddylai unrhyw gwsmer allu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o unrhyw fangre arall sy'n dal trwydded mangre gamblo

Canolfan Hapchwarae i Oedolion

- Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r fangre yn uniongyrchol o unrhyw fangre gamblo trwyddedig arall

Siopau Betio

- Rhaid i'r fynedfa fod ar stryd (yn unol â pharagraff 7.23 Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu) neu o fangre arall gyda thrwydded safle betio.
- Dim mynediad uniongyrchol o siop fetio i fangre arall a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer gwerthu nwyddau neu wasanaethau. Mewn gwirionedd, does dim modd cael mynediad i siop fetio o unrhyw siop arall, a does dim modd agor siop fetio yng nghefn caffi - byddai'n rhaid trwyddedu'r ardal gyfan.

Traciau

- Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r fangre yn uniongyrchol o:
 - casino
 - canolfan hapchwarae i oedolion

Mangre Bingo

- Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r fangre yn uniongyrchol o:
 - casino
 - canolfan hapchwarae i oedolion
 - mangre betio, ac eithrio trac

Canolfannau Adloniant i Deuluoedd

- Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r fangre yn uniongyrchol o:
 - casino
 - canolfan hapchwarae i oedolion
 - mangre betio, ac eithrio trac

Atodiad (i)

Mae Rhan 7 o Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu yn cynnwys arweiniad pellach ar y mater hwn, caiff hyn hefyd ei ystyried gan yr awdurdod yma wrth wneud penderfyniadau.

(iii) Mangreoedd sy'n "barod ar gyfer gamblo"

- 16.7 Mae'r Canllawiau yn nodi y dylai trwydded i ddefnyddio mangreoedd ar gyfer gamblo gael eu rhoi mewn perthynas â mangreoedd lle mae'r awdurdod trwyddedu yn sicr eu bod yn barod i'w defnyddio ar gyfer gamblo yn y dyfodol rhesymol agos yn unig, a hynny yn gyson â maint yr adeilad neu'r addasiadau sy'n ofynnol cyn i'r fangre gael ei ddefnyddio.

Os yw'r fangre wrthi'n cael ei adeiladu, neu os oes angen addasu arno, neu os nad oes gan yr ymgeisydd hawl i'w feddiannu eto, yna dylid gwneud cais am ddatganiad dros dro.

Wrth benderfynu a oes modd rhoi trwydded mangre i fangre lle mae gwaith adeiladu neu addasu'n mynd rhagddo, bydd yr awdurdod hwn yn penderfynu ar geisiadau yn ôl eu rhinweddau, gan ddefnyddio proses ystyried dau gam: -

- Yn gyntaf, a ddylid caniatáu i'r fangre gael ei ddefnyddio ar gyfer gamblo
- Yn ail, p'un a ellir gosod amodau priodol ar gyfer y ffaith nad yw'r fangre eto yn y cyflwr y dylai fod ynddo cyn y bydd modd i gamblo ddigwydd.

Dylai ymgeiswyr nodi bod gan yr Awdurdod yma hawl i benderfynu ei bod hi'n briodol rhoi trwydded yn ddarostyngedig i amodau, ond nid oes rhaid iddo roi trwydded o'r fath.

(iv) Lleoliad

- 16.8 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ymwybodol nad oes modd ystyried materion sy'n ymwneud â'r galw o ran lleoliad y fangre ond y gall yr ystyriaethau o ran yr amcanion trwyddedu wneud hynny. Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Lleol, bydd yr Awdurdod hwn yn rhoi sylw arbennig i amddiffyn plant a phobl sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan weithgareddau gamblo, yn ogystal â materion trosedd ac anhrefn. Pe byddai unrhyw bolisi penodol o ran ardaloedd lle na ddylid lleoli mangreoedd gamblo yn cael ei ddiwygio, bydd y datganiad hwn yn cael ei ddiweddarau. Dylid nodi nad yw unrhyw bolisi o'r fath yn atal unrhyw gais rhag cael ei wneud, a bydd pob cais yn cael ei benderfynu ar sail unigol, gyda'r ymgeisydd yn gyfrifol am ddangos sut y gellir goresgyn pryderon posibl.

(v) Dyblygu gyda chyfundrefnau rheoleiddio eraill (gan gynnwys Cynllunio)

- 16.9 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ceisio osgoi unrhyw ddyblygu gyda systemau statudol/rheoleiddio lle bo modd, gan gynnwys Cynllunio. Fydd yr

Atodiad (i)

Awdurdod ddim yn ystyried a yw cais am drwydded yn debygol o gael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth gan y gwasanaeth adeiladu, wrth drafod cyflwyno'r drwydded. Fodd bynnag, bydd e'n gwrando ar unrhyw bryderon ynghylch amodau nad oes modd i'r trwyddedigion eu bodloni oherwydd cyfyngiadau cynllunio, ac yn eu hystyried yn ofalus, pe bai hynny'n codi.

Wrth ddelio â chais trwydded mangre ar gyfer adeiladau gorffenedig, ni fydd yr awdurdod hwn yn ystyried a oes rhaid i'r adeiladau hynny gydymffurfio â'r caniatâd cynllunio neu adeiladu angenrheidiol. Ni fydd risgiau tân nac iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried, gan fod y materion hyn yn cael eu trin o dan reoliadau rheoli cynllunio ac adeiladu a rheoliadau eraill, ac ni ddylai hyn gael ei ystyried ar gyfer y drwydded mangre.

(vi) Amcanion trwyddedu

- 16.10 Rhaid i drwyddedau mangreoedd fod yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu. Mewn perthynas â'r amcanion yma, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi ystyried Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol ac mae rhai sylwadau wedi'u nodi isod.

(i) Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, bod yn gysylltiedig â throedd neu anhrefn, neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd

Bydd y Comisiwn Gamblo yn chwarae rôl flaenllaw wrth atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell drosedd. Fodd bynnag, mae Cyfarwyddyd y Comisiwn Gamblo yn rhagweld y dylai awdurdodau trwyddedu roi sylw i leoliad arfaethedig mangreoedd gamblo o ran yr amcan trwyddedu hwn.

Felly, lle mae ardal wedi'i nodi yn un sydd â lefelau uchel o droseddau sydd wedi'u trefnu, bydd yr Awdurdod hwn yn ystyried yn ofalus a yw hi'n addas lleoli mangreoedd gamblo a ph'un a allai rhai amodau fod yn addas fel darparu goruchwylwyr ar y drws.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn effro i'r gwahaniaeth rhwng anhrefn a niwsans a bydd yn ystyried ffactorau fel a oedd angen cymorth yr heddlu a pha mor fygythiol yr oedd yr ymddygiad i'r rhai a allai ei weld, er mwyn gwneud y gwahaniaeth hwnnw. Ni ellir mynd i'r afael â materion niwsans trwy ddarpariaethau'r Ddeddf Gamblo.

(ii) Sicrhau bod gamblo yn digwydd mewn modd teg ac agored

Yn gyffredinol, nid yw'r Comisiwn Gamblo yn disgwyl i Awdurdodau Trwyddedu ymwneud â sicrhau bod gamblo yn cael ei gynnal mewn modd teg ac agored, gan y bydd hyn yn cael sylw trwy drwyddedau gweithredu a thrwyddedau personol.

Atodiad (i)

Fodd bynnag, mae rhagor o alw am hyn mewn perthynas â thraciau, ac mae rhagor o fanylion am hyn yn yr adran 'traciau'.

(iii) Amddiffyn plant a phobl eraill agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan weithgareddau gamblo

Ar wahân i eithriadau cyfyngedig, bwriad y Ddeddf yw peidio â chaniatáu i blant a phobl ifainc gamblo ac felly dylid eu hatal rhag mynd i mewn i fangreoedd gamblo, sef amgylcheddau sy'n addas i oedolion yn unig.

Yn ogystal â hynny, efallai y bydd cyfyngu ar hysbysebu hefyd fel nad yw cynnyrch gamblo wedi'u hanelu at blant neu'n arbennig o ddeniadol i blant.

Felly, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried, fel yr awgrymwyd yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo, p'un a oes angen mesurau penodol mewn mangreoedd penodol, mewn perthynas â'r amcan trwyddedu hwn. Gall mesurau priodol gynnwys goruchwyllo mynedfeydd/peiriannau, gwahanu ardaloedd ac ati.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yma hefyd yn ei wneud ei hun yn effro i'r Codau Ymarfer, y mae'r Comisiwn Gamblo yn eu hystyried o ran yr amcan trwyddedu hwn, mewn perthynas â mangreoedd penodol.

Mae Amodau a Chodau Ymarfer y Drwydded a gyhoeddwyd yn 2015 yn nodi sut y mae'n **rhaid** i weithredwyr atal plant rhag defnyddio gemau sydd â chyfyngiad o ran oedran neu weithgareddau gamblo, yn enwedig lle mae peiriannau hapchwarae wedi'u trwyddedu.

Yn benodol, rhaid i Weithredwyr sicrhau bod:

- Yr holl staff wedi'u hyfforddi;
- Pob cwsmer yn cael ei oruchwyllo pan fydd yn y fangre gamblo;
- Gweithdrefnau ar gyfer nodi cwsmeriaid sydd mewn perygl o gael niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

Bydd y Cyngor yn disgwyl i bob gweithredwr fod â pholisïau a gweithdrefnau yn eu lle, fel sy'n ofynnol gan Amodau a Chodau Ymarfer y Drwydded, mewn perthynas â'r cyfrifoldeb cymdeithasol i ymdrin â phob agwedd ar y cod, yn enwedig cofnodion staff a chofnodion hunan-wahardd.

O ran y term "**pobl agored i niwed**", nodir nad yw'r Comisiwn Gamblo yn ceisio cynnig diffiniad. Serch hynny, meddai "y bydd at ddibenion rheoleiddio yn tybio bod y grŵp hwn yn cynnwys pobl sy'n gamblo yn fwy nag y maen nhw eisïau; pobl sy'n gamblo y tu hwnt i'w modd; a phobl nad ydynt efallai'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus neu gytbwys am gamblo oherwydd nam meddyliol, alcohol neu gyffuriau."

Atodiad (i)

(iv) Amodau

16.11 Bydd unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â thrwyddedau yn gymesur a byddan nhw:

- Yn berthnasol i'r angen i wneud yr adeilad arfaethedig yn addas ar gyfer cyfleuster gamblo;
- Yn uniongyrchol gysylltiedig â'r fangre a'r math o drwydded rydych chi wedi gwneud cais amdani;
- Yn deg ac yn rhesymol gysylltiedig â maint a math y fangre; ac
- Yn rhesymol ym mhob ffordd arall.

Bydd penderfyniadau ar amodau unigol yn cael eu gwneud fesul achos, er y bydd nifer o fesurau y bydd yr Awdurdod trwyddedu yma yn ystyried eu defnyddio os teimlwn fod angen amdany'n nhw, fel y defnydd o oruchwylwyr, arwyddion priodol ar gyfer ardaloedd oedolion yn unig ac ati. Mae sylwadau penodol wedi'u gwneud yn hyn o beth o dan rai o'r mathau o drwyddedau isod. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yma hefyd yn disgwyl i ymgeisydd am drwydded gynnig ei awgrymiadau ei hun ynghylch sut mae modd diwallu'r amcanion trwyddedu'n effeithiol.

16.12 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yma hefyd yn ystyried mesurau penodol efallai y bydd eu hangen ar gyfer adeiladau sy'n destun trwyddedau mangreoedd lluosog. Mae'n bosibl y bydd mesurau o'r fath yn cynnwys goruchwyllo mynedfeydd; gwahanu ardaloedd gamblo ac ardaloedd sy ddim yn cael eu defnyddio am gamblo sy'n cael eu defnyddio gan blant; a goruchwyllo peiriannau hapchwarae mewn mangreoedd penodol sy ddim ar gyfer gamblo gan oedolion yn benodol er mwyn bodloni'r amcanion trwyddedu. Mae'r materion hyn yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo.

16.13 Bydd yr Awdurdod yma hefyd yn sicrhau, lle mae peiriannau categori C neu uwch ar gael mewn mangreoedd lle mae plant yn cael mynd:

- bod pob peiriant o'r fath wedi ei leoli mewn ardal o'r adeilad sydd wedi'i gwahanu oddi wrth weddill yr adeilad gan rwystr ffisegol sy'n atal mynediad heblaw trwy fynedfa ddynodedig;
- mai dim ond oedolion sy'n cael eu derbyn i'r ardal lle mae'r peiriannau hyn wedi'u lleoli;
- bod mynediad i'r ardal lle mae'r peiriannau yn cael ei oruchwyllo;
- bod yr ardal lle mae'r peiriannau yma wedi'i threfnu fel bod modd i staff neu ddeilydd y drwydded ei harsylwi; a
- bod hysbysiadau yn nodi does dim modd i bobl o dan 18 oed gael mynediad i'r ardal i'w gweld yn amlwg wrth fynedfa'r ardal ac yn yr ardal ei hun.

Bydd yr ystyriaethau yma yn berthnasol i fangreoedd, gan gynnwys adeiladau lle mae trwyddedau mangreoedd lluosog yn berthnasol.

Atodiad (i)

16.14 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yma yn effro i'r ffaith bod modd i draciau fod yn ddarostyngedig i un neu ragor o drwyddedau mangreoedd, ar yr amod bod pob trwydded yn ymwneud ag ardal benodol o'r trac. Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, bydd yr awdurdod trwyddedu yma yn ystyried yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd ar wahân i'r mathau gwahanol o fangreoedd a bod plant yn cael eu heithrio o ardaloedd gamblo lle nad oes gyda nhw ganiatâd i fod yno.

Mae amodau nad oes modd i'r Awdurdod Trwyddedu eu hatodi i drwyddedau mangreoedd sef:

- unrhyw amod ar y drwydded mangre sy'n ei gwneud hi'n amhosibl cydymffurfio ag amod trwydded weithredu;
- amodau sy'n ymwneud â chategorïau peiriannau hapchwarae, niferoedd y peiriannau, neu eu dull gweithredu;
- amodau sy'n gwneud aelodaeth o glwb neu gorff yn ofynnol (mae Deddf Gamblo 2005 yn benodol yn dileu'r angen i fod yn aelod o glwb bingo neu gasino, ac mae'r ddarpariaeth yma yn sicrhau na chaiff yr angen hwn ei adfer); ac
- amodau mewn perthynas â betiau, ffioedd, enillion neu wobrau.

(v) Goruchwylwyr Drws

16.15 Mae'r Comisiwn Gamblo yn rhoi'r cyngor canlynol yn ei Ganllawiau i Awdurdodau Trwyddedu: os yw awdurdod trwyddedu yn pryderu y bydd mangre yn denu anhrefn neu ei bod yn debygol y bydd pobl yn ymdrechu i gael mynediad iddo heb ganiatâd (er enghraifft plant a phobl ifainc) yna mae'n bosibl y bydd yn ofynnol bod y mynedfeydd i'r fangre yn cael eu rheoli gan oruchwylwr drws, ac mae ganddo hawl i osod amod ar y drwydded mangre i'r perwyl yma.

Os yw'n penderfynu bod goruchwyllo mynedfeydd neu beiriannau yn addas ar gyfer achosion penodol, bydd rhaid ystyried a oes angen trwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA). Ni fydd yn cael ei gymryd yn awtomatig y bydd angen trwydded ar y fangre, gan fod y gofynion statudol ar gyfer gwahanol fathau o fangreoedd yn amrywio (yn unol â'r Canllawiau, Rhan 33).

17. Canolfannau Hapchwarae i Oedolion

17.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yn benodol yr angen i amddiffyn plant a phobl sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio gan gamblo a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r Awdurdod y bydd mesurau digonol i sicrhau nad yw pobl dan 18 oed yn cael mynediad i'r fangre.

17.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni'r amcanion trwyddedu, fodd bynnag, mae modd i fesurau / amodau trwydded priodol mynd i'r afael â materion fel:

Atodiad (i)

- Cynlluniau profi oedran
- Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)
- Goruchwyllo mynedfeydd/ardaloedd lle mae peiriannau
- Ardaloedd ar wahân
- Lleoliad y fynedfa
- Hysbysiadau/arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau hunan-rwystro
- Darparu taflenni gwybodaeth/rhif llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

Dydy'r rhestr yma ddim yn ofynnol, nac yn gynhwysfawr - mae'n cynnwys enghreifftiau o fesurau posibl yn unig.

18. Canolfannau Adloniant i Deuluoedd (Trwyddedig):

18.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw penodol i'r angen i amddiffyn plant a phobl sy'n agored i niwed rhag niwed neu gael eu hecsbloetio gan gamblo a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd gynnig eu mesurau eu hunain i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu a sicrhau nad oes gan bobl dan 18 oed fynediad at y peiriannau hapchwarae 'Oedolion yn Unig'. Fodd bynnag, gall mesurau/amodau trwydded priodol ymdrin â materion fel:

- Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)
- Goruchwyllo mynedfeydd/ardaloedd lle mae peiriannau
- Ardaloedd ar wahân
- Lleoliad y fynedfa
- Hysbysiadau/arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau hunan-rwystro
- Darparu taflenni gwybodaeth/rhif llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.
- Mesurau/hyfforddiant i staff ar sut i ddelio â phlant ysgol ar y safle dan amheuaeth o drwantio

Dydy'r rhestr yma ddim yn ofynnol, nac yn gynhwysfawr - mae'n cynnwys enghreifftiau o fesurau posibl yn unig.

18.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, yn cyfeirio at wefan y comisiwn i weld unrhyw amodau sy'n berthnasol i drwyddedau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r ffordd y dylai'r ardal sy'n cynnwys peiriannau 'Categori C' gael ei dylunio. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn sicrhau ei fod yn effro i unrhyw amodau gorfodol neu ragosodol ar y trwyddedau mangreoedd hyn, pan fyddan nhw wedi'u cyhoeddi.

Atodiad (i)

19. Casinos

Ar hyn o bryd does dim casinos yn gweithredu yn Rhondda Cynon Taf, gan nad yw'n ardal ddynodedig dan ddarpariaethau Deddf Gamblo 2005.

Dydy Rhondda Cynon Taf ddim wedi gwahardd casinos ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cadw'r hawl i adolygu'r safbwynt ar casinos ar unrhyw adeg.

20. Mangreoedd Bingo

- 20.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn nodi bod canllawiau'r Comisiwn Gamblo yn nodi:
- 20.2 Bydd angen i awdurdodau trwyddedu fodloni eu hunain bod modd chwarae bingo mewn unrhyw fangre bingo y byddan nhw'n cyhoeddi trwydded mangre ar ei gyfer. Bydd hyn yn ystyriaeth berthnasol lle mae gweithredwr mangre bingo presennol yn gwneud cais i amrywio ei drwydded i wahardd ardal o'r fangre presennol o'i gwmpas ac yna'n gwneud cais am drwydded mangre newydd, neu drwyddedau lluosog, ar gyfer yr ardal honno sy wedi'i eithrio.
- 20.3 Mae'r Awdurdod yma hefyd yn nodi'r Canllawiau ym mharagraff 18.8 sy'n nodi bod Adran 172(7), fel y'i diwygiwyd, yn nodi bod modd i ddeiliad trwydded mangre bingo ddarparu nifer o beiriannau hapchwarae Categori B cyhyd â bod y nifer hwnnw ddim yn uwch nag 20% o nifer y peiriannau hapchwarae sydd yn y fangre. Er enghraifft, caiff mangre sy'n darparu cyfanswm o 25 o beiriannau hapchwarae darparu pump neu lai o beiriannau hapchwarae categori B3 yn y fangre hwnnw. Mae gan fangre a gafodd ei drwyddedu cyn 13 Gorffennaf 2011 yr hawl i ddarparu wyth peiriant hapchwarae categori B, neu 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae, p'un bynnag yw'r mwyaf. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar nifer y peiriannau categori C neu D y mae modd eu darparu. Mae rheoliadau'n nodi bod peiriannau categori B mewn mangreoedd bingo wedi'u cyfyngu i beiriannau is-gategori B3 (SI 2007/2158: Rheoliadau Categoriâu Peiriannau Hapchwarae 2007) (ond nid B3A) a B4.
- 20.4 Mae gan blant a phobl ifainc yr hawl i fynd i mewn i fangreoedd bingo; fodd bynnag, nid oes hawl gyda nhw i gymryd rhan yn y bingo ac os oes peiriannau categori B neu C ar gael i'w defnyddio, rhaid eu rhoi mewn ardal ar wahân i'r ardaloedd lle caniateir plant a phobl ifainc.

21. Mangreoedd Betio

- 21.1 Bydd angen trwydded mangre betio gan yr Awdurdod Trwyddedu ar bobl sy'n dymuno gweithredu Mangre Betio ac ni ddylai unrhyw fangre sy'n dal y drwydded honno fod yn hawdd i blant a phobl ifainc gael mynediad ato.

Atodiad (i)

Peiriannau Betio (terfynau derbyn bet) mewn Mangre Betio

21.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, yn ystyried maint y fangre, nifer y safleoedd cownter sydd ar gael ar gyfer trafodion person i berson, a gallu'r staff i fonitro'r defnydd o'r peiriannau gan oedolion sy'n agored i niwed, plant a phobl ifainc (mae'n drosedd i bobl o dan 18 oed fetio), wrth ystyried nifer y peiriannau betio, neu eu natur neu eu sefyllfa, y mae'r gweithredwr eisiau eu cynnig.

22. Traciau

22.1 Ar hyn o bryd does dim cyfleoedd ar gyfer betio ar draciau yn Rhondda Cynon Taf.

22.2 Mae modd i draciau fod yn ddarostyngedig i un neu ragor o drwyddedau mangre, ar yr amod bod pob trwydded yn ymwneud ag ardal benodol o'r trac. Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried yn arbennig yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu (h.y. amddiffyn plant a phobl sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan gamblo) a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd ar wahân i'r gwahanol mangreoedd a bod plant yn cael eu heithrio o ardaloedd gamblo lle nad oes gyda nhw ganiatâd i gael mynediad.

22.3 Felly, bydd yr Awdurdod yn disgwyl i'r ymgeisydd ar gyfer trwydded mangre ddangos mesurau addas i sicrhau nad oes gan blant fynediad i gyfleusterau hapchwarae i oedolion yn unig. Caiff ei nodi y bydd plant a phobl ifainc yn cael mynediad i ardaloedd o'r trac lle mae cyfleusterau ar gyfer betio ar gael ar ddyddiau pan fydd rasio cŵn a/neu rasio ceffylau yn digwydd, ond eu bod yn cael eu hatal rhag mynd i mewn i ardaloedd lle mae peiriannau hapchwarae (heblaw am beiriannau categori D).

22.4 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yma yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni'r amcanion trwyddedu, fodd bynnag, mae modd i fesurau / amodau trwydded priodol fynd i'r afael â materion fel:

- Cynlluniau profi oedran
- Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)
- Goruchwylio mynedfeydd/ardaloedd lle mae peiriannau
- Ardaloedd ar wahân
- Lleoliad y fynedfa
- Hysbysiadau/arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau hunan-atal
- Darparu taflenni gwybodaeth / rhif llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

Atodiad (i)

Dydy'r rhestr yma ddim yn ofynnol, nac yn gynhwysfawr - mae'n cynnwys enghreifftiau o fesurau posibl yn unig.

- 22.5 **Peiriannau hapchwarāe** - Os yw'r ymgeisydd yn dal trwydded weithredu betio pwll ac yn mynd i ddefnyddio'r hawl i bedwar peiriant hapchwarāe, dylid lleoli peiriannau (heblaw peiriannau categori D) mewn ardaloedd lle mae plant yn cael eu heithrio.
- 22.6 **Peiriannau betio** - Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yma, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, yn ystyried maint y fangre a gallu'r staff i fonitro'r defnydd o'r peiriannau gan blant a phobl ifainc (mae'n drosedd i bobl o dan 18 oed osod bet) neu gan bobl sy'n agored i niwed, wrth ystyried nifer y peiriannau betio, neu eu natur neu eu sefyllfa, y mae'r gweithredwr eisiau eu cynnig.
- 22.7 **Ceisiadau a chynlluniau** - Mae'r Ddeddf Gamblo (A.151) yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno cynlluniau'r fangre gyda'u cais, er mwyn sicrhau bod gan yr awdurdod trwyddedu yr wybodaeth angenrheidiol i wneud dyfarniad gwybodus ynghylch a yw'r fangre yn addas ar gyfer gamblo. Bydd y cynllun hefyd yn cael ei ddefnyddio er mwyn i'r awdurdod trwyddedu gynllunio gweithgaredd arolygu mangre yn y dyfodol.

Nid oes angen i gynlluniau ar gyfer traciau fod ar raddfa benodol, ond dylid tynnu eu llun wrth raddfa a dylen nhw fod yn ddigon manwl i gynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliadau.

Efallai y bydd rhai traciau wedi'u lleoli ar dir amaethyddol lle nad yw'r perimedr wedi'i ddiffinio gan wal allanol neu ffens, megis traciau rasio o fan i fan. Mewn achosion o'r fath, lle mae ffi mynediad yn cael ei chodi, mae'n bosibl i ddeiliaid trwyddedau mangreoedd godi strwythurau dros dro i gyfyngu mynediad i'r fangre.

Yn yr achosion prin lle nad oes modd diffinio'r perimedr allanol, mae'n debygol na fydd y trac dan sylw wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer cynnal digwyddiadau chwaraeon neu rasys yn aml. Mewn achosion o'r fath, mae modd darparu cyfleusterau betio yn well trwy hysbysiadau defnydd achlysurol lle nad oes angen diffinio ffiniau'r fangre.

Mae'r Awdurdod yma yn sylweddoli ei bod weithiau'n anodd diffinio union leoliad ardaloedd betio ar draciau. Does dim angen dangos union leoliad y cyfleusterau betio ar gynlluniau trac, yn rhinwedd y ffaith bod betio yn cael ei ganiatáu yn unrhyw ran o'r fangre ac oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â phennu union leoliadau ar gyfer rhai mathau o draciau. Dylai ymgeiswyr ddarparu digon o wybodaeth fel bod modd i'r awdurdod yma ei fodloni ei hun bod y cynllun yn nodi'r prif ardaloedd lle mae'n bosibl y bydd betio yn digwydd. Ar gyfer caeau rasio yn arbennig, rhaid nodi unrhyw feysydd betio sy'n ddarostyngedig i'r "rheol pum gwaith" (sy'n cael eu galw'n gylchoedd betio fel arfer) ar y cynllun.

Atodiad (i)

23. Ffeiriau sy'n Teithio

- 23.1 Lle bydd peiriannau categori D a/neu hapchwarae am wobr cyfle cyfartal heb drwydded ar gael i'w defnyddio mewn ffeiriau sy'n teithio, bydd rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu benderfynu a yw'r gofyniad statudol bod y cyfleusterau ar gyfer gamblo yn ddim mwy nag adloniant atodol i'r ffair yn cael ei fodloni.
- 23.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ystyried a yw'r ymgeisydd yn bodloni'r diffiniad statudol o ffair sy'n teithio.
- 23.3 Nodwyd mai am 27 diwrnod yn ystod blwyddyn galendr y caiff tir gael ei ddefnyddio ar gyfer ffair - dyma'r uchafswm statudol. Mae hyn yn berthnasol i'r darn o dir lle y caiff y ffeiri eu cynnal - does dim ots os mai'r un ffair neu ffeiri gwahanol sy'n cael eu cynnal yno. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gweithio gyda'i awdurdodau cyfagos i sicrhau bod tir, sy'n croesi ein ffiniau, yn cael ei fonitro fel nad yw'r terfynau statudol yn cael eu torri.

24. Datganiadau dros dro

- 24.1 Efallai y bydd datblygwyr am wneud cais i'r awdurdod yma am ddatganiadau dros dro cyn ymrwymo i gontract i brynu neu brydlesu eiddo neu dir er mwyn barnu p'un a yw datblygiad yn werth ei symud yn ei flaen yn sgil yr angen i gael trwydded mangre. Nid oes angen i'r ymgeisydd gynnal trwydded weithredu er mwyn gwneud cais am ddatganiad dros dro.

Mae A.204 y Ddeddf Gamblo'n rhoi hawl i unigolyn wneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â mangre mae'n:

- disgwyl y bydd yn cael ei adeiladu;
- disgwyl y bydd yn cael ei addasu; neu'n
- disgwyl cael hawl i'w feddiannu.

- 24.2 Mae'r broses ar gyfer ystyried cais am ddatganiad dros dro yr un peth â'r un ar gyfer cais am drwydded mangre. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd roi rhybudd o'r cais yn yr un ffordd ag ymgeisio am drwydded mangre. Mae modd i awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb wneud sylwadau ac mae hawliau apelio.
- 24.3 Mewn cyferbyniad â'r cais am drwydded mangre, nid oes raid i'r ymgeisydd ddal neu wneud cais am drwydded weithredol gan y Comisiwn Gamblo (ac eithrio yn achos trac) ac nid oes rhaid bod gyda nhw'r hawl i feddiannu'r mangre maen nhw'n gwneud cais dros dro ar ei gyfer.
- 24.4 O ran sylwadau ynglŷn â cheisiadau am drwydded mangre, yn dilyn rhoi datganiad dros dro, ni ellir ystyried unrhyw sylwadau pellach gan Awdurdodau perthnasol na phartïon â diddordeb oni bai eu bod yn ymwneud â materion na ellid mynd i'r afael â hwy yn ystod y cyfnod datganiadau dros dro, neu maen

Atodiad (i)

nhw'n adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r ymgeisydd. Yn ogystal, mae modd i'r Awdurdod wrthod y drwydded mangre (neu ei roi ar delerau gwahanol i'r rhai sydd ynghlwm wrth y datganiad dros dro) dim trwy gyfeirio at faterion:

- (a) na fyddai gwrthwynebwyr wedi gallu eu codi yn y cyfnod trwydded dros dro; neu
- (b) sydd ym marn yr Awdurdod yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r gweithredwr;
- (c) lle nad yw'r fangre wedi'i adeiladu yn unol â'r cynllun a gafodd ei gyflwyno gyda'r cais. Rhaid i hyn fod yn newid sylweddol i'r cynllun ac mae'r awdurdod trwyddedu yma yn nodi bod modd iddo drafod unrhyw bryderon sydd ganddo gyda'r ymgeisydd cyn gwneud penderfyniad.

25. Adolygiadau:

- 25.1 Mae modd i bartïon â diddordeb neu Awdurdodau Cyfrifol wneud ceisiadau i adolygu trwydded mangre.
- 25.2 Serch hynny, yr Awdurdod Trwyddedu fydd yn penderfynu a ddylid cynnal yr adolygiad. Bydd hyn ar sail a yw'r cais am yr adolygiad
- yn berthnasol i'r materion sy wedi'u rhestru isod,
 - yn ofer,
 - yn flinderus,
 - ddim yn peri i'r Awdurdod ddymuno newid / diddymu / atal y drwydded,
 - yn sylweddol o debyg i geisiadau blaenorol am adolygiad.
 - yn cydymffurfio ag unrhyw Godau Ymarfer perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi gan y Comisiwn Gamblo
 - yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gafodd eu cyhoeddi gan y Comisiwn Gamblo
 - yn cydymffurfio'n rhesymol â'r amcanion trwyddedu; ac
 - yn unol â datganiad polisi'r Awdurdod Trwyddedu.
- 25.3 Mae modd i'r Awdurdod Trwyddedu hefyd gychwyn adolygiad o drwydded ar sail unrhyw reswm y mae'n credu sy'n briodol.
- 25.4 Unwaith y bydd yr awdurdod trwyddedu wedi derbyn cais dilys am adolygiad, gall awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb gyflwyno sylwadau yn ystod cyfnod o 28 diwrnod. Mae'r cyfnod yma yn dechrau 7 diwrnod ar ôl i'r awdurdod trwyddedu dderbyn y cais, a fydd yn cyhoeddi hysbysiad o'r cais cyn pen 7 niwrnod ar ôl ei dderbyn.

Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu gynnal yr adolygiad cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r cyfnod 28 diwrnod ar gyfer cyflwyno sylwadau fynd heibio.

Atodiad (i)

- 25.5 Pwrpas yr adolygiad fydd penderfynu a ddylai'r awdurdod trwyddedu gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r drwydded. Os oes modd cyfiawnhau gweithredu, yr opsiynau sydd ar gael i'r awdurdod trwyddedu yw:-
- (a) ychwanegu, dileu neu ddiwygio amod trwydded sy wedi'i osod gan yr awdurdod trwyddedu;
 - (b) eithrio amod rhagosodedig a gafodd ei osod gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion yr Alban (e.e. oriau agor) neu ddileu neu ddiwygio'r fath eithriad;
 - (c) atal y drwydded mangre am gyfnod hyd at dri mis; a
 - (d) diddymu'r drwydded mangre.
- 25.6 Wrth benderfynu pa gamau dylid eu cymryd yn dilyn adolygiad, rhaid i'r awdurdod trwyddedu ystyried yr egwyddorion sy wedi'u nodi yn adran 153 y Ddeddf, yn ogystal ag unrhyw sylwadau perthnasol.
- 25.7 Yn benodol, mae modd i'r awdurdod trwyddedu hefyd gychwyn adolygiad o drwydded mangre ar y sail nad yw deiliad trwydded mangre wedi darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo ar y safle. Mae hyn er mwyn atal pobl rhag gwneud cais am drwyddedau mewn modd hapfasnachol heb fwriadu eu defnyddio.
- 25.8 Unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi gwybod am ei benderfyniad cyn gynted â phosibl i'r canlynol:
- deiliad y drwydded
 - yr unigolyn a wnaeth y cais am adolygiad (os yw'n berthnasol)
 - y Comisiwn
 - unrhyw berson a wnaeth sylwadau
 - prif swyddog yr heddlu neu'r prif gwnstabl; a Chomisiynwyr Ei Mawrhydi dros Gyllid a Thollau

RHAN C

Hawlenni / Hysbysiad o Ddefnydd Dros Dro ac Achlysurol

26. Hawlenni Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Canolfannau Adloniant i Deuluoedd Heb Drwydded

26.1 Os nad oes gan fangre drwydded mangre ond mae'n dymuno darparu peiriannau hapchwarae, mae modd iddo wneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu am yr hawlen yma. Dylid nodi bod yn rhaid i'r ymgeisydd ddangos y bydd mangre yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer darparu peiriannau hapchwarae (Adran 238).

26.2 Mae'r Ddeddf yn nodi bod modd i Awdurdod Trwyddedu baratoi *datganiad o egwyddorion* y mae'n bwriadu eu hystyried wrth bennu addasrwydd ymgeisydd am drwydded ac wrth baratoi'r datganiad yma, a/neu ystyried ceisiadau, mae modd iddo, ond nid oes raid iddo, ystyried yr amcanion trwyddedu, a bydd yn ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol sy wedi'u cyhoeddi gan y Comisiwn o dan adran 25.

26.3 Does dim modd rhoi hawlen peiriant hapchwarae ar gyfer Canolfan Adloniant i Deuluoedd heb ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu a does dim modd gosod amodau wrth ganiatáu'r hawlen. Felly, bydd rhaid bodloni'r Awdurdod Trwyddedu ynglŷn ag addasrwydd yr ymgeisydd cyn rhoi trwydded.

26.4 Datganiad o Egwyddorion

Mae disgwyl i ymgeiswyr ddangos bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i ddiogelu plant rhag niwed. Dydy niwed yn y cyd-destun yma ddim yn gyfyngedig i niwed rhag gamblo ond mae'n cynnwys ystyriaethau amddiffyn plant ehangach. Bydd effeithlonrwydd polisïau a gweithdrefnau o'r fath yn cael eu hystyried yn ôl eu teilyngdod, fodd bynnag, mae modd iddyn nhw gynnwys mesurau/hyfforddiant priodol ar gyfer staff o ran plant dan amheuaeth o drwantio ar y safle, mesurau/hyfforddiant sy'n cwmpasu sut y byddai staff yn delio â phlant ifainc iawn heb oruchwyliaeth ar y safle, neu blant sy'n achosi problemau yn y fangre neu o'i gwmpas.

26.5 Mae disgwyl i'r ymgeiswyr ddangos:

- dealltwriaeth lawn o uchafswm y betiau a'r gwobrau sy'n cael ei ganiatáu mewn Canolfannau Adloniant i Deuluoedd heb drwydded;
- nad oes gan yr ymgeisydd unrhyw euogfarnau perthnasol (y rhai sy wedi'u nodi yn Atodlen 7 y Ddeddf); a
- bod y staff wedi'u hyfforddi i gael dealltwriaeth lawn o uchafswm y betiau a'r gwobrau;
- eu bod yn effro i adegau gwyliau ysgol lleol a sut i gysylltu â Swyddogion Lles Addysg perthnasol ynglŷn â thriwantiaeth.

Atodiad (i)

26.6 Bydd angen darparu cynllun o'r fangre sy'n nodi unrhyw fynedfeydd ac unrhyw feysydd lle mae peiriannau hapchwarae wedi'u lleoli.

27. Hawlenni Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Mangre â Thrwydded (Alcohol)

27.1 Mae darpariaeth yn y Ddeddf i fangreoedd sydd â thrwydded i werthu alcohol i'w yfed ar y safle, gael dau beiriant hapchwarae yn awtomatig, o gategoriâu C a / neu D. Yr unig beth sydd rhaid i'r fangre ei wneud yw rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu.

27.2 Mae modd i'r Awdurdod Trwyddedu ddileu'r awdurdodiad awtomatig mewn perthynas ag unrhyw fangre penodol os:

- dydy darparu'r peiriannau ddim yn cyd-fynd â'r amcanion trwyddedu;
- mae hapchwarae wedi digwydd yn y fangre sy'n torri amod adran 282 y Ddeddf Gamblo (h.y. bod hysbysiad ysgrifenedig wedi'i roi i'r Awdurdod Trwyddedu, bod ffi wedi'i ddarparu a bod y fangre'n cydymffurfio ag unrhyw god ymarfer perthnasol wedi'i gyhoeddi gan y Comisiwn Gamblo ynghylch lleoliad a gweithrediad y peiriant);
- mae'r fangre yn cael ei ddefnyddio yn bennaf ar gyfer hapchwarae; neu
- mae trosedd o dan y Ddeddf Gamblo wedi'i gyflawni ar y safle.

27.3 Os yw mangre'n dymuno cael mwy na 2 beiriant, yna mae angen iddo wneud cais am drwydded a rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried y cais hwnnw yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu, unrhyw ganllawiau sy wedi'u cyhoeddi gan y Comisiwn Gamblo o dan Adran 25 Deddf Gamblo 2005, a "*materion mae'n credu sy'n berthnasol.*"

27.4 Datganiad o Egwyddorion

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried y bydd "materion o'r fath" yn cael eu penderfynu fesul achos ond yn gyffredinol bydd angen ystyried amddiffyn plant a phobl sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan gamblo. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r Awdurdod hwnnw y bydd mesurau digonol i sicrhau na fydd pobl o dan 18 oed yn cael mynediad at beiriannau hapchwarae i oedolion yn unig.

27.5 Ymhlith y mesurau a fydd yn bodloni'r Awdurdod na fydd plant yn gallu cael mynediad ar y peiriannau fydd lleoli peiriannau i oedolion lle mae modd eu gweld o'r bar, neu lle mae modd i staff eu gweld a'u monitro rhag cael eu defnyddio gan bobl o dan 18 oed. Mae'n bosibl y bydd hysbysiadau ac arwyddion o gymorth hefyd. O ran amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, mae modd i ymgeiswyr am ystyried darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

27.6 Rydyn ni'n cydnabod bod modd i rai mangreoedd â thrwydded alcohol wneud cais am drwydded mangre ar gyfer eu hardaloedd sydd heb drwydded alcohol.

Atodiad (i)

Mae'n debyg y byddai rhaid ymdrin â chais o'r fath fel petai'n gais am drwydded mangre i Ganolfan Hapchwarae i Oedolion.

- 27.7 Dylid nodi bod modd i'r Awdurdod Trwyddedu benderfynu caniatáu'r cais gyda nifer llai o beiriannau a / neu gategori gwahanol o beiriannau na'r hyn rydych chi wedi gwneud cais amdano. Does dim modd atodi amodau (heblaw'r rhain).
- 27.8 Dylid nodi hefyd y dylai deiliad yr hawlen gydymffurfio ag unrhyw God Ymarfer sy wedi'i gyhoeddi gan y Comisiwn Gamblo ynghylch lleoliad a gweithrediad y peiriant.

28. Hawlenni Hapchwarae â Gwobrau

- 28.1 Mae modd i'r Awdurdod Trwyddedu "prepare a statement of principles that they propose to apply in exercising their functions under this Schedule". Mae modd i hyn, "in particular, specify matters that the Licensing Authority propose to consider in determining the suitability of the applicant for a permit" .

28.2 Datganiad o Egwyddorion

Dylai'r ymgeisydd nodi'r mathau o hapchwarae y mae'n bwriadu ei gynnig ac y dylai'r ymgeisydd allu dangos:

- eu bod yn deall y terfynau ar gyfer betiau a gwobrau sy wedi'u nodi yn y Rheoliadau;
- a bod yr hapchwarae sy'n cael ei gynnig yn gyfreithlon.
- Polisiâu clir sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd i ddiogelu plant rhag niwed.

- 28.3 Wrth wneud ei benderfyniad ar gais am yr hawlen yma, does dim rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried yr amcanion trwyddedu ond rhaid iddo roi sylw i unrhyw ganllawiau mae'r Comisiwn Gamblo wedi'u rhoi.

- 28.4 Dylid nodi bod amodau yn Neddf Gamblo 2005 y mae'n rhaid i ddeilydd yr hawlen gydymffurfio â nhw, ond ni chaiff yr Awdurdod Trwyddedu atodi amodau. Dyma'r amodau yn y Ddeddf:

- rhaid cydymffurfio â'r terfynau ar ffioedd cyfranogi, fel sy wedi'u nodi yn y rheoliadau;
- mae rhaid dyrannu pob cyfle i gymryd rhan yn yr hapchwarae yn y fangre lle mae'r hapchwarae yn digwydd ac ar un diwrnod; mae rhaid chwarae gêm a'i chwblhau ar y diwrnod y mae'r cyfleoedd yn cael eu dyrannu; a rhaid i ganlyniad y gêm gael ei chyhoeddi yn y fangre ar y diwrnod y caiff ei chwarae;
- ddylai'r wobwr ar gyfer y gêm ddim bod yn uwch na'r swm sy wedi'i nodi yn y rheoliadau (os yw'n wobwr ariannol), neu'r gwerth rhagnodedig (os nad yw'n wobwr ariannol); a

Atodiad (i)

- ddylai cymryd rhan yn yr hapchwarae ddim rhoi'r hawl i'r chwaraewr gymryd rhan mewn unrhyw gamblo arall.

29. Hawlenni Hapchwarae ar gyfer Clybiau a Hawlenni Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Clybiau

29.1 Mae modd i Glybiau Aelodau a Sefydliadau Lles y Glowyr wneud cais am Hawlen Hapchwarae ar gyfer Clybiau neu Hawlen Peiriant Hapchwarae ar gyfer Clybiau. Does dim modd i Glybiau Masnachol wneud cais am Hawlen Hapchwarae ar gyfer Clybiau.

29.2 Hawlen Hapchwarae ar gyfer Clybiau

Bydd yr Hawlen Hapchwarae ar gyfer Clybiau yn galluogi'r fangre i ddarparu peiriannau hapchwarae:

- Hyd at 3 peiriant yng nghategori B, C neu D,
- hapchwarae cyfle cyfartal a
- gemau siawns fel sy wedi'u nodi yn y rheoliadau.

29.3 Hawlen Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Clybiau

Bydd Hawlen Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Clybiau yn galluogi'r fangre i ddarparu peiriannau hapchwarae:

- 3 pheiriant yng nghategori B, C neu D; a
- Hapchwarae cyfle cyfartal fel sy wedi'i nodi yn y rheoliadau

Bydd rhaid bodloni'r Awdurdod Trwyddedu bod ymgeiswyr am y trwyddedau yma yn bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer clybiau aelodau cymwys sy wedi'u cynnwys yn adrannau 266 a 267 o'r Ddeddf.

30. Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro

30.1 Mae Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro yn caniatáu defnyddio mangre ar gyfer gamblo lle nad oes trwydded mangre ond lle mae gweithredwr gamblo yn dymuno defnyddio'r fangre i ddarparu cyfleusterau gamblo dros dro. Mae mangreoedd a fyddai efallai'n addas ar gyfer Hysbysiad Defnydd Dros Dro, yn ôl y Comisiwn Gamblo, yn cynnwys gwestai, canolfannau cynadledda a lleoliadau chwaraeon.

Dim ond i berson neu gwmni sy'n meddu ar drwydded weithredol berthnasol, h.y. trwydded weithredu casino nid o bell, y mae modd i'r awdurdod trwyddedu roi Hysbysiad o Ddefnydd Dros Dro.

30.2 Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i benderfynu pa fath o gamblo y mae modd i Hysbysiadau Defnydd Dros Dro ei awdurdodi, ac adeg ysgrifennu'r

Atodiad (i)

Datganiad hwn mae'r rheoliadau perthnasol (SI rhif 3157: Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Rheoliadau Hysbysiadau Defnydd Dros Dro) 2007) yn nodi mai dim ond i ganiatáu darparu cyfleusterau ar gyfer hapchwarae cyfle cyfartal y mae modd defnyddio Hysbysiadau Defnydd Dros Dro, lle bwriedir i'r hapchwarae gynhyrchu un enillydd sydd, yn ymarferol, yn golygu twrnameintiau pocer.

- 30.3 Mae nifer o gyfyngiadau statudol o ran Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro. Caiff ystyr "mangre" yn Rhan 8 o'r Ddeddf ei thrafod yn Rhan 7 o Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu. Fel gyda "mangre", bydd y diffiniad o "set o fangreoedd" yn gwestiwn o ffaith yn amgylchiadau penodol pob hysbysiad sy'n cael ei roi. Yn y Ddeddf, caiff "mangre" ei ddiffinio fel "unrhyw le". Wrth ystyried a yw lle yn dod o fewn y diffiniad o "set o fangreoedd", mae rhaid i'r awdurdod trwyddedu edrych ar, berchnogaeth/meddiannaeth a rheolaeth y fangre, ymhlith pethau eraill.
- 30.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yma yn disgwyl gwrthod hysbysiadau os yw'n ymddangos mai eu heffaith fyddai caniatáu gamblo rheolaidd mewn man y mae modd ei ddisgrifio fel un set o fangreoedd, fel sy wedi'i argymhell yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu.

31. Hysbysiadau o Ddefnydd Achlysurol:

Ychydig iawn o ddisgresiwn sydd gan yr Awdurdod Trwyddedu o ran yr hysbysiadau yma heblaw sicrhau nad yw'r terfyn statudol o 8 diwrnod mewn blwyddyn galendr yn cael ei dorri. Er hynny, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried y diffiniad o 'trac' ac a oes modd i'r ymgeisydd fanteisio ar yr hysbysiad.

32. Gemau Loteri Cymdeithasau Bach

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yma yn defnyddio dull yn seiliedig ar risg tuag at ei gyfrifoldebau gorfodi ar gyfer gemau loteri cymdeithasau bach. Mae'r Awdurdod o'r farn bod modd i'r rhestr ganlynol effeithio ar statws risg y gweithredwr (er nad yw wedi'i gyfyngu i'r rhain):

- cyflwyno ffurflenni dychwelyd hwyr (rhaid cyflwyno ffurflenni dim mwy na thri mis ar ôl y dyddiad y cynhaliwyd y loteri)
- cyflwyno ffurflenni dychwelyd anghyflawn neu anghywir
- torri'r terfynau ar gyfer gemau loteri cymdeithasau bach

Mae hapchwarae anfasnachol yn cael ei ganiatáu os yw'n digwydd mewn achlysur anfasnachol, naill ai fel gweithgaredd achlysurol neu brif weithgaredd yn yr achlysur. Mae achlysuron yn anfasnachol os nad oes unrhyw ran o'r elw

Atodiad (i)

yn cael ei ddefnyddio ar gyfer elw neu enillion preifat. Gall enillion achlysuron o'r fath fod o fudd i un neu ragor o unigolion os yw'r gweithgaredd wedi'i drefnu:

- gan, neu ar ran, elusen neu at ddibenion elusennol
- i alluogi cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, athletau neu ddiwylliannol, neu eu cefnogi.

Ni ddylai'r enillion fod yn uwch na £ 20,000 ar gyfer un gêm loteri ac ni ddylai enillion cyfan gemau loteri fod yn uwch na £250,000 mewn unrhyw flwyddyn.

Rydyn ni'n awgrymu i elusennau a grwpiau cymunedol gysylltu â'r Garfan Drwyddedu (adran.trwyddedau@rctcbc.gov.uk) am arweiniad pellach ar eu cynigion penodol.

33. Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer 2015

Rhyddhaodd y Comisiwn Gamblo Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer ym mis Chwefror 2015, (i gychwyn ym mis Mai 2015), a'u heffaith yw cryfhau gofynion y codau sy'n ymwneud â chyfrifoldeb cymdeithasol. Mae modd dod o hyd i fanylion ynglŷn â'r Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer a'r Cod Cyfrifoldeb Cymdeithasol ar wefan y Comisiwn Gamblo: www.gamblingcommission.gov.uk

33.1 Mae'r Cod yn mynnu bod gweithredwyr yn:

- Goruchwyllo cwsmeriaid yn effeithiol mewn mangreoedd gamblo ac adnabod cwsmeriaid sydd mewn perygl o gael niwed sy'n gysylltiedig â gamblo;
- Rhoi yn eu lle, (yn weithredol o fis Ebrill 2016), cynlluniau i ganiatáu i gwsmeriaid eu heithrio eu hunain o bob gweithredwr tebyg yn yr ardal lle maen nhw'n byw ac yn gweithio;
- Rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith mewn perthynas â marchnata i sicrhau cyfrifoldeb cymdeithasol - rhaid i'r rhain fod yn dryloyw ac nid yn gamarweiniol;
- Llunio asesiad risg ar fangreoedd unigol, (o Ebrill 2016) a rhoi polisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli ar waith i liniaru risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu.

33.2 Asesiad risg - Mangreoedd Betio

Mae'r Cod Cyfrifoldeb Cymdeithasol (SRC) yn ei gwneud yn ofynnol i holl weithredwyr Casinos, Canolfannau Hapchwarae i Oedolion (AGC); Mangreoedd Bingo; Canolfannau Adloniant i Deuluoedd (FEC); Siopau Betio a Chyfyngwyr Betio o Bell i asesu risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu a chael polisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli ar waith i liniaru'r risgiau hynny.

Atodiad (i)

Mae'r Cod Cyfrifoldeb Cymdeithasol yn gofyn i weithredwyr wneud asesiadau risg o'r fath ar gael i Awdurdodau Trwyddedu ar gais (o 1 Ebrill 2016) a bydd hyn yn rhan o drefn arolygu'r Cyngor ac mae modd gofyn amdany'n nhw pan fydd Swyddogion yn ymchwilio i gwynion.

33.3 Mae'r Cod Cyfrifoldeb Cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor nodi yn eu Datganiad o Egwyddorion y materion y mae'n disgwyl i'r gweithredwr eu hystyried yn yr asesiad risg. Mae'r Cyngor yma yn disgwyl i'r Gweithredwyr ystyried y materion cyffredinol canlynol wrth wneud asesiadau risg: -

- Gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan y Trwyddedai ynghylch hunan-waharddiadau ac achosion o gamblo dan oed;
- Tueddiadau hapchwarae sydd o bosibl yn adlewyrchu taliadau budd-daliadau;
- Trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch tueddiadau hunan-wahardd a hapchwarae;
- Lleoliad trefol fel pa mor agos ydyn nhw i ysgolion, amgylchedd masnachol, ffactorau sy'n effeithio ar niferoedd;
- Cyfleusterau sy'n agos at y fangreoedd trwyddedig fel siopau gamblo eraill, Banciau, Swyddfeydd Post, cyfleusterau lluniaeth ac adloniant;
- Ystyried problemau lleol yn yr ardal fel ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n deillio o yfed ar y stryd, aflonyddu gan bobl ifainc, camddefnyddio sylweddau ac ati.

33.4 Materion yn ymwneud â phlant a phobl ifainc yn benodol yn cynnwys: -

- Mangreoedd, mannau neu ardaloedd lle mae disgwyl i blant a phobl ifainc fod yn bresennol fel ysgolion, clybiau ieuencid, parciau, meysydd chwarae a lleoliadau adloniant megis safleoedd bowlio deg, sinemâu ac ati.
- **Unrhyw fangre lle mae plant yn debygol o ymgynnull gan gynnwys arosfannau bysiau, caffis, siopau neu unrhyw le arall sy'n denu plant;**
- Ardaloedd lle mae tuedd i bobl ifainc ymddwyn yn wrthgymdeithasol gan gynnwys gweithgareddau fel graffiti / tagio, yfed dan oed ac ati.
- Digwyddiadau cofnodedig o bobl dan oed yn ceisio gamblo.

33.5 Materion sy'n ymwneud yn benodol ag oedolion sy'n agored i niwed gan gynnwys: -

- Gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan y trwyddedai ynghylch hunan-waharddiadau ac achosion o gamblo dan oed;
- Tueddiadau hapchwarae sy'n adlewyrchu dyddiau ar gyfer taliadau ariannol megis diwrnodau talu neu Daliadau Budd-daliadau;
- Trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch tueddiadau hunan-wahardd a hapchwarae;
- Pa mor agos yw mangreoedd y mae pobl sy'n agored i niwed yn eu mynychu fel ysbytai, cartrefi gofal preswyl, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd,

Atodiad (i)

swyddfeydd materion tai, meddygfeydd dibyniaeth neu ganolfannau cymorth a llefydd eraill lle mae'n bosibl y bydd bobl sy'n dioddef o gamddefnyddio sylweddau ymgynnull.

- 33.6** Dydy'r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr ac efallai y bydd materion eraill y bydd angen eu hystyried, fel materion ffydd, gan gynnwys pob enwad crefyddol neu ffydd gan gynnwys pa mor agos yw eglwysi, mosgiau, temlau neu unrhyw fan addoli arall.

Rhestr o'r Ymgynghoreion

Darperir rhestr o'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy isod. Dylech chi nodi mae'n bosibl y bydd sylwadau na ofynnwyd amdany'n nhw wedi cael eu derbyn gan bobl eraill ond heb eu rhestru.

Mae'r Ddeddf Gamblo yn mynnu bod yr Awdurdodau Trwyddedu'n ymgynghori â'r partion canlynol:

Un neu ragor o bobl sydd, ym marn yr Awdurdod, yn cynrychioli diddordebau'r unigolion sy'n cynnal y busnes gamblo yn ardal yr Awdurdod.

Felly mae'r Awdurdod wedi ymgynghori â:

- William Hill plc
- Done Bros T/A 'Betfred'
- The Ladbrokes Coral Group
- Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain
- BACTA
- Top Ten Bingo / Castle Bingo / Cashino Gaming
- BALPPA
- Association of British Bookmakers (ABB)
- Gamcare
- Bingo Association of Great Britain
- Codwyr betiau yn yr ardal

Un neu ragor o bobl sydd, ym marn yr Awdurdod, yn cynrychioli diddordebau'r unigolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y Cyngor wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan Ddeddf Gamblo 2005.

- Y Comisiwn Gamblo
- Heddlu De Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Pennaeth Cynllunio a Datblygu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Pennaeth Gwasanaethau Amddiffyn Plant ac Adolygu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Carfan yr Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Undeb Clwb a Sefydliad y Gweithwyr
- Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi
- Iechyd Cyhoeddus Cymru

Atodiad (i)

Atodiad B

Tabl Dirprwyo Swyddogaethau Trwyddedu

MATER I FYND I'R AFAEL AG E	CYNGOR LLAWN	IS-BWYLLGOR	SWYDDOGION
Datganiad o egwyddorion tair blynedd	X		
Polisi i beidio â chaniatáu casinos	X		
Pennu ffi - pan fo'n briodol			X (i'w gymeradwyo gan yr Adain Weithredol)
Cais am drwydded mangre		Lle mae sylwadau wedi eu derbyn a heb eu tynnu'n eu hôl	Lle nad oes unrhyw sylwadau wedi'u derbyn / sylwadau wedi'u tynnu'n eu hôl
Cais am amrywiad i drwydded		Lle mae sylwadau wedi eu derbyn a heb eu tynnu'n eu hôl	Lle nad oes unrhyw sylwadau wedi'u derbyn / sylwadau wedi'u tynnu'n eu hôl
Cais am drosglwyddo trwydded		Lle mae sylwadau wedi'u derbyn oddi wrth y Comisiwn	Lle nad yw sylwadau wedi'u derbyn oddi wrth y Comisiwn
Cais am ddatganiad dros dro		Lle mae sylwadau wedi eu derbyn a heb eu tynnu'n eu hôl	Lle nad oes unrhyw sylwadau wedi'u derbyn / sylwadau wedi'u tynnu'n eu hôl
Adolygu Trwydded Mangre		X	
Cais am hawlenni hapchwarae ar gyfer clybiau / peiriannau hapchwarae ar gyfer clybiau		Lle mae sylwadau wedi eu derbyn a heb eu tynnu'n eu hôl	Lle nad oes unrhyw sylwadau wedi'u derbyn / sylwadau wedi'u tynnu'n eu hôl
Canslo hawlenni hapchwarae clwb / peiriannau hapchwarae clwb		X	
Ceisiadau am hawlenni eraill			X
Canslo hawlen peiriannau hapchwarae mangre trwyddedig			X
Ystyried hysbysiad defnydd dros dro			X
Penderfyniad i roi hysbysiad gwrthdro i hysbysiad defnydd dros dro		X	
<i>*Dyletswydd i gydymffurfio â'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn Gamblo Y Comisiwn Gamblo</i>			X
<i>*Swyddogaethau sy'n ymwneud â chyfnewid gwybodaeth</i>			X
<i>*Cofrestru a rheoleiddio gemau loteri cymdeithasau bach</i>			X

Mae **X** yn dangos y lefel isaf y mae modd dirprwyo penderfyniadau iddi

* yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygio) 2009

Crynodeb o Ddarpariaethau Peiriannau fesul Mangre

Categori peiriannau							
Math o fangre	A	B1	B2	B3	B4	C	D
Casino mawr (cymhareb peiriant/bwrdd o 5-1 hyd at yr uchafswm)				Uchafswm o 150 o beiriannau Unrhyw gyfuniad o beiriannau yng nghategoriâu B i D (ac eithrio peiriannau B3A), o fewn yr uchafswm o 150 (yn amodol ar gymhareb peiriant/bwrdd)			
Casino bach (cymhareb peiriant/bwrdd o 2-1 hyd at yr uchafswm)				Uchafswm o 80 o beiriannau Unrhyw gyfuniad o beiriannau yng nghategoriâu B i D (ac eithrio peiriannau B3A), o fewn yr uchafswm o 80 (yn amodol ar gymhareb peiriant/bwrdd)			
Casino cyn Deddf 2005 (dim cymhareb peiriant / bwrdd)				Uchafswm o 20 peiriant categori B i D (ac eithrio peiriannau B3A), neu unrhyw nifer o beiriannau C neu D yn lle hynny			
Mangreoedd betio a thraciaiu lle mae betio pwll				Uchafswm o 4 peiriant categori B2 i D (ac eithrio peiriannau B3A)			
Mangre Bingo 1			Uchafswm o 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae categori B3 neu B4 sydd ar gael i'w defnyddio yn y fangre		Dim cyfyngiad ar beiriannau categori C neu D		
Canolfan Hapchwarae i Oedolion 2			Uchafswm o 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae categori B3 neu B4 sydd ar gael i'w defnyddio yn y fangre		Dim cyfyngiad ar beiriannau categori C neu D		
Canolfan Adloniant i Deuluoedd (Trwyddedig)³				Dim cyfyngiad ar beiriannau categori C neu D			
Canolfan Adloniant i Deuluoedd (gyda hawlen) ³				Dim cyfyngiad ar beiriannau categori D			
Clybiau neu Sefydliadau Lles y Glowyr (gyda hawlenni) ⁴				Uchafswm o 3 pheiriant yng nghategoriâu B3A neu B4 i D			
Mangre cymwys â thrwydded alcohol				1 neu 2 beiriant categori C neu D yn awtomatig wrth roi gwybod			
Mangre cymwys â thrwydded alcohol (gyda thrwydded peiriannau hapchwarae mangre trwyddedig)				Nifer y peiriannau categori C-D fel y nodir ar yr hawlen			
Ffair sy'n Teithio			Dim cyfyngiad ar beiriannau categori D				

¹ Caiff mangreoedd trwydded bingo drefnu bod nifer o beiriannau hapchwarae categori B ar gael i'w defnyddio, heb fod yn fwy na 20% o gyfanswm y peiriannau hapchwarae yn y fangre. Os rhoddwyd trwydded mangre cyn 13 Gorffennaf 2011, mae hawl sicrhau bod wyth peiriant hapchwarae categori B ar gael (Gorchymyn Deddf Gamblo 2005 (Peiriannau Hapchwarae mewn Mangreoedd Bingo) 2009) neu 20% o gyfanswm y peiriannau hapchwarae, p'un bynnag yw'r mwyaf. Mae peiriannau Categori B mewn mangreoedd bingo wedi'u cyfyngu i beiriannau is-gategori B3 a B4, ond nid peiriannau B3A.

Atodiad (i)

2 Caiff canolfannau hapchwarae i oedolion drefnu bod nifer o beiriannau hapchwarae categori B ar gael i'w defnyddio, heb fod yn fwy nag 20% o gyfanswm y peiriannau hapchwarae sydd ar gael i'w defnyddio yn y fangre ac unrhyw nifer o beiriannau categori C neu D. Mae gan fangre a gafodd ei drwyddedu cyn 13 Gorffennaf 2011 yr hawl i ddarparu pedwar peiriant hapchwarae categori B, neu 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae, p'un bynnag yw'r mwyaf. Mae peiriannau Categori B mewn canolfannau hapchwarae i oedolion wedi'u cyfyngu i beiriannau is-gategori B3 a B4, ond nid peiriannau B3A.

3 Dim ond mangreoedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer trefnu bod peiriannau hapchwarae ar gael caiff fod yn ddeiliaid hawlen peiriant hapchwarae Canolfannau Adloniant i Deuluoedd heb drwydded neu drwydded mangre Canolfan i'r Teulu. Dim ond mewn Canolfannau Adloniant i Deuluoedd â thrwydded y mae modd lleoli peiriannau categori C, a lle mae hawlen Canolfan Adloniant i Deuluoedd mewn grym. Rhaid iddyn nhw fod mewn ardal ar wahân i sicrhau y caiff y peiriannau i oedolion yn unig eu gwahanu a'u goruchwyllo. Does dim pŵer gan yr awdurdod trwyddedu i osod terfyn ar nifer y peiriannau o dan yr hawlen Canolfan Adloniant i Deuluoedd.

4 Caiff clybiau aelodau a sefydliadau lles y glowyr sydd â hawlen hapchwarae ar gyfer clybiau neu hawlen peiriannau hapchwarae ar gyfer clybiau gynnog cyfanswm o dri pheiriant categorïau B3A i D ond dim ond un peiriant B3A y mae modd ei gynnog yn rhan o'r hawl yma.

5 Caiff clybiau masnachol sydd â hawlenni peiriannau neu hapchwarae ar gyfer clybiau gynnog cyfanswm o dri pheiriant categorïau B4 i D.

Atodiad (i)

Manylion Cyswllt Defnyddiol

Mae modd cael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Gamblo 2005, y Datganiad o Egwyddorion yma neu'r broses ymgeisio oddi wrth: -

Yr Adran Drwyddedu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Tŷ Elái,
Dinas Isaf (Dwyrain), Trewiliam, Tonypany, CF40 1NY

Ffôn: 01443 425001

E-bost: adran.trwyddedau@rctcbc.gov.uk

Gwefan: www.rctcbc.gov.uk

Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael oddi wrth:

Y Comisiwn Gamblo

Victoria Square House, Square, Birmingham B2 4BP

Ffôn: 0121 230 6666 Victoria

E-bost: info@gamblingcommission.gov.uk

Gwefan: www.gamblingcommission.gov.uk

Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

2-4 Cockspur Street, Llundain, SW1Y 5DH

Ffôn: 020 7211 6200

E-bost: enquiries@culture.gov.uk Gwefan : www.culture.gov.uk